Senedd Cymru
Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

Chwefror 2025

1. Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 mewn cysylltiad â'r meysydd polisi yn ein cylch gwaith.

2. Ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid, ac adroddiadau Pwyllgorau eraill y Senedd, bwriedir i'r adroddiad hwn lywio dadl y Senedd ar y gyllideb ddrafft, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 4 Chwefror 2025.

3. Byddem yn croesawu ymateb i'n hadroddiad a'n hargymhellion.

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

4. Ar 10 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26.

5. Cyhoeddwyd y setliad Llywodraeth Leol dros dro ar 20 Rhagfyr 2023.

6. Gwnaethom graffu ar gynigion y gyllideb ddrafft mewn perthynas â'r cyllidebau o fewn y Prif Grŵp Gwariant ("MEG") Llywodraeth Leol a Thai.

Dull gweithredu'r Pwyllgor o ran craffu

7. Ar 8 Ionawr 2025, clywsom dystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLILC").

8. Ar 15 Ionawr 2025, gwnaethom gynnal dwy sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ("Ysgrifennydd y Cabinet"): un ar y dyraniadau tai, adfywio a thir yn y gyllideb ddrafft, a'r llall ar y dyraniadau llywodraeth leol a'r setliad llywodraeth leol dros dro.

9. Esgusododd Lee Waters AS ei hun o'r sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion yn ymwneud â thai ac o ystyried adran dai yr adroddiad hwn, o ystyried ei waith gyda Thasglu Cartrefi Fforddiadwy Llywodraeth Cymru.

10. Mynychodd Carolyn Thomas AS y cyfarfodydd ar 15 a 30 Ionawr fel eilydd i Lesley Griffiths AS.

2. Llywodraeth Leol

Y setliad llywodraeth leol dros dro

Cyllid Allanol Cyfun (AEF)

11. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2025-26 ar 11 Rhagfyr 2024. Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, cyfanswm y cyllid craidd dros dro (Cyllid Allanol Cyfun ("AEF")) ar gyfer llywodraeth leol yn 2025-26 yw £6.131 biliwn. Mae hyn yn gynnydd o 4.3 y cant, neu £253.5 miliwn, ar sail tebyg am debyg yn erbyn y flwyddyn ariannol bresennol.

12. Mae'r AEF wedi'i addasu yn ystyried cyllid a throsglwyddiadau yn ystod y flwyddyn, megis cyllid ychwanegol tuag at gytundebau cyflog a phensiynau'r gweithlu (£135.1 miliwn), neu gynlluniau penodol megis cyllid i atal digartrefedd (£20 miliwn). Mae hyn yn darparu'r llinell sylfaen ar gyfer cymharu â setliad dros dro 2025-26.

13. Mae'r tabl isod yn dangos y newidiadau i'r setliad llywodraeth leol o setliad terfynol 2024-25:

	2024-25 (£oedd) (setliad terfynol)	2024-25 (£oedd) (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau)	2025-26 (£oedd) (setliad dros dro)
Cyllideb Grant Cynnal Refeniw	4,581,365,359	4,738,224,798	4,994,976,273
Cyllid gwaelodol	1,297,705	1,297,705	0
Cyfran Ardrethi Annomestig	1,137,861,000	1,137,861,000	1,135,863,000
Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun	**5,720,524,064**	**5,877,383,503**	**6,130,839,273**
% newid mewn perthynas â setliad 2024-25 (fel y'i haddaswyd ar gyfer trosglwyddiadau)			**4.3%**

14. Mae'r cynnydd canrannol o 4.3 y cant yn uwch na'r cynnydd o 3.1 y cant rhwng setliad llywodraeth leol 2023-24 i 2024-25 (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau), ond mae'n sylweddol is na'r cynnydd mewn blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, mae'r setliad llywodraeth leol derfynol ar gyfer 2023-24 wedi darparu cynnydd cyffredinol o 7.9 y cant ar sail tebyg am debyg gyda'r flwyddyn flaenorol (£403 miliwn), tra bod y cynnydd yn uwch fyth yn 2022-23, sef 9.4 y cant (£438 miliwn) (yn seiliedig ar ffigurau wedi'u haddasu).

15. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai yn nodi yn ei phapur tystiolaeth ar gyllideb ddrafft 2025-26 y bydd "y cynnydd yn lefel y cyllid yn helpu Awdurdodau Lleol gyda materion fel cyflogau, chwyddiant a phwysau ar wasanaethau".[1]

16. Serch hynny, mae papur tystiolaeth CLlLC i Bwyllgor Cyllid y Senedd yn tynnu sylw at bwysau cyllidebol o tua £559 miliwn yn 2025-26, mwy na dwbl y cyllid ychwanegol a ddarperir yn y setliad gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn

[1] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, papur 1

gofyn am gynnydd mewn gwariant o ychydig dros 7 y cant mewn refeniw net yn ôl CLILC.[2]

17. Dywedodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy, er bod hwn yn gyfnod heriol iawn o hyd, ei bod wedi rhoi ochenaid enfawr o ryddhad pan ddaeth y setliad gan ei bod yn disgwyl cynnydd o 0 y cant yn y gyllideb.[3] Cytunodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd Cyngor Ynys Môn, fod y sefyllfa'n llawer gwell na'r disgwyl, ond nododd hefyd fod yr heriau'n parhau ac yn cynyddu.[4]

18. Er ei fod yntau hefyd yn croesawu'r cyllid cynyddol, dywedodd y Cynghorydd Mark Pritchard, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, nad yw'n ddigon o arian gan fod y galw'n fwy na'r gwasanaethau.[5] Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn disgwyl y byddai'n rhaid i gyngor Wrecsam wneud toriadau i wasanaethau, diswyddiadau a chynyddu'r dreth gyngor yng ngoleuni'r gyllideb ddrafft.[6]

19. Derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod awdurdodau lleol yn dal i orfod gwneud penderfyniadau anodd iawn oherwydd y pwysau, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol ac addysg.[7] Fodd bynnag, nododd y bydd yn cymryd amser i adfer ar ôl 14 mlynedd o gyllid cyhoeddus cyfyngedig.[8]

Pwysau ar wariant a gwydnwch

20. Dywed papur tystiolaeth CLILC fod llywodraeth leol wedi wynebu £720 miliwn mewn pwysau ar wariant ar gyfer 2024-25 yn unig.[9] Mae gofal cymdeithasol (gwasanaethau oedolion a phlant) yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r pwysau hwn, gyda CLILC yn datgan y bydd gofal cymdeithasol yn cyfrif am 40 y cant o'r holl bwysau ar gyllid y flwyddyn nesaf (£224m), tra bod ysgolion yn cyfrif am 22 y cant (£122m). Mae'r holl wasanaethau eraill yn cyfrif am y pwysau sy'n weddill.

21. Er gwaethaf cynnydd o £180 miliwn yn y gyllideb yn 2024-25, ac incwm o £110 miliwn o incwm ychwanegol y dreth gyngor, fe adawodd fwlch yn y gyllideb

[2] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[3] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 8
[4] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 10
[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 14
[6] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 17
[7] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 189
[8] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 190
[9] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1

o tua £400m yn ôl CLlLC. O ganlyniad, roedd yn golygu "penderfyniadau anodd iawn i wasanaethau anstatudol a mwy a mwy o ysgolion."[10]

22. Rhoddodd CLlLC amcangyfrifon ar gyfer pwysau ar wariant dros y blynyddoedd nesaf yn seiliedig ar gynlluniau ariannol tymor canolig. Ar gyfer 2025-26, mae CLlLC yn nodi bod y pwysau "tua 2 waith y pwysau y byddem fel arfer yn disgwyl ei weld". Mae'n nodi'r pwysau fel a ganlyn: [11]

- **2025-26**: £559 miliwn
- **2026-27**: £454 miliwn
- **2027-28**: £464 miliwn
- Cyfanswm y pwysau dros dair blynedd: **£1.478 biliwn**

23. Er mwyn sefyll yn llonydd yn 2025-26, mae CLlLC yn dweud y byddai angen cynnydd mewn gwariant o "ychydig dros 7 y cant mewn gwariant refeniw net" ar lywodraeth leol.[12]

24. Heb gyllid ychwanegol, byddai awdurdodau lleol angen "cymysgedd o gynnydd yn nhreth y cyngor, toriadau i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd" i gynnal gwasanaethau. Mae CLlLC yn nodi bod y pwysau'n "gyfwerth â chynnydd o 26 y cant yn nhreth y cyngor, neu golli bron i 14,000 o swyddi".[13]

25. Dywedodd y Cynghorydd Gary Pritchard wrthym:

> *"Mae faint rydym ni'n ei godi ar y dreth gyngor, mewn cyfnod hynod o anodd i drigolion yr ynys, yn mynd yn fwy ac yn fwy, ac, i'w roi o'n blwmp ac yn blaen, y neges buaswn i'n ei roi ydy, yn anffodus, rydym ni ar lawr gwald yn mynd i gael ein herio pam mae'r dreth gyngor yn codi tra bo gwasanaethau yn cael eu torri, tra bo toiledau cyhoeddus yn cau, tra bo yna dyllau yn y lôn, a thra bo'r Llywodraeth ym Mae Caerdydd ac yn San Steffan yn dweud bod Cymru a'r awdurdodau lleol wedi cael mwy o arian nag erioed o'r blaen."*[14]

[10] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[11] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[12] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[13] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[14] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 84

26. Dywedodd nad oes unrhyw beth ar ôl i'w dorri ar ôl 14 mlynedd o gyni; "rydyn ni wedi tynhau'r gwregys gymaint ag y medrwn ni ei dynhau", felly yr unig opsiwn yw cau gwasanaethau.[15]

27. Er mwyn helpu i leddfu rhywfaint o'r pwysau ar rai gwasanaethau statudol, galwodd y Cynghorydd Mark Pritchard ar Lywodraeth Cymru i ystyried cyflwyno 'mesurau lliniaru statudol'. Dywedodd:

> *"introduce statutory overrides to give parity with the English authorities to take children's services, care and specialist education provision out of the revenue and into the balance sheet. This would provide and give us much-needed short-term breathing space. They do it in England. There are pots of money there. It works well. It's good practice."*[16]

28. Y dewis arall, yn ôl y Cynghorydd Mark Pritchard, yw gorfod rhoi'r gorau i wasanaethau anstatudol o ganlyniad i'r pwysau presennol.[17]

29. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y pwysau ar wariant awdurdodau lleol, a mynegodd ei diolch am y trafodaethau y maent wedi'u cael drwy'r broses gyllidebol, a dywedodd ei bod hi'n bwysig iawn bod y sgwrs honno'n digwydd.[18] Aeth yn ei blaen i nodi:

> *"When we look back, we've had increases over the last few years of an average of 9.4 per cent in 2022-23, 7.9 per cent of 2023-24, and 3.3 per cent last year, and obviously in normal circumstances they would be seen as really good settlements, but we've seen significant pressures over the last few years, following on challenges through Brexit, inflationary pressures, COVID—we know there are a lot of pressures that have been faced over the last few years."*[19]

Setliadau amlflwyddyn

30. Mae llywodraeth leol wedi galw ers amser maith am setliadau amlflwyddyn i roi sicrwydd i awdurdodau lleol a'r gallu iddynt gynllunio dros y tymor canolig.

[15] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 111
[16] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 41
[17] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 106
[18] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 267
[19] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 268

31. Dywedodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby fod dirfawr angen setliadau amlflwyddyn er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol fod yn fwy hyblyg ynglŷn â sut y mae adnoddau'n cael eu dyrannu. Galwodd am i drefniant o'r fath gael ei ymgorffori yn y modd mae setliadau'n cael eu gwneud ar gyfer llywodraeth leol ac y dylid derbyn mai setliadau amlflwyddyn yw'r ffordd ymlaen.[20]

32. Yn ôl y Cynghorydd Brocklesby, mae angen i'r cais i lywodraeth leol gynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir fynd law yn llaw â chynllunio tymor canolig a thymor hir y Llywodraeth genedlaethol. Esboniodd:

> *"while we have a commitment from the UK Government to multi-year funding, starting the year after next, we have no indication yet, either from the Welsh Government or the UK Government, of what their spending plans might be and what their medium-term or long-term forecasting is….We have to have a sense, as a public sector, what our medium and long-term financial plans are and how they are interrelated, otherwise we're just looking at a cliff edge every year as we reset the budget."*[21]

33. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod symudiad Llywodraeth y DU i setliadau amlflwyddyn yn beth cadarnhaol, gan ychwanegu y bydd Llywodraeth Cymru, o ganlyniad, yn gallu rhoi sicrwydd tymor hwy i lywodraeth leol.[22] Aeth un o swyddogion Llywodraeth Cymru ymlaen i ddweud:

> *"we are equally as frustrated as local government that we have not had any degree of financial forward-look that we can work with…We have tried working with the WLGA to sort of look at some scenarios, but, actually, the risk to us, the risk to local government, is to set out or agree on a set of assumptions on which to plan, because you need assumptions on which to plan. And if you're recruiting staff or retaining staff, or you're making investments where you're putting money into reserves, and those assumptions turn out not to be right, decisions by the UK Treasury—and we've seen some quite significantly different decisions by the UK Treasury over the last few years—*

[20] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 46
[21] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 127
[22] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 236

will change our financial envelope, and change that very quickly."[23]

Atal, cydweithio a thrawsnewid

34. Clywsom fod angen i lywodraeth leol gymryd golwg tymor hwy ar sut i ddarparu gwasanaethau. Fel rhan o hyn, dywedodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby fod angen i awdurdodau lleol feddwl am ddefnyddio data, cydweithio ac atal.[24] Aeth ymlaen i ddweud na ellir gwneud gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae angen ei wneud yn statudol a'r hyn y mae angen ei wneud i gefnogi ein gallu i gyflawni'r dyletswyddau statudol hynny.[25]

35. Cytunodd y Cynghorydd Jane Gebbie, Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fod angen i awdurdodau lleol ystyried strategaethau atal ac ymyrryd yn gynnar mewn perthynas ag addysg a gofal cymdeithasol oherwydd, fel arall, ni fydd y gwasanaethau hynny yno i'w defnyddio yn y dyfodol.[26]

36. Nododd y Cynghorydd Gary Pritchard hefyd fod gwaith ataliol yn cael ei ystyried yn waith anstatudol, gan ychwanegu, pan fydd pwysau ar gyllidebau, bod gwaith ataliol yn aml yn cael ei dorri.[27] Galwodd am gyllid ar gyfer gwaith ataliol, gan nodi na all awdurdodau lleol wneud gwaith ataliol heb gyllidebau digonol.[28]

37. Cododd CLlLC hefyd bwysigrwydd defnyddio data i wella darpariaeth gwasanaethau. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, o ran rheoli a dadansoddi data, nad oes gan yr un cyngor y gallu i wneud hyn i gyd ar ei ben ei hun ar hyn o bryd; mae'n rhaid cydweithio.[29]

38. Nododd y Cynghorydd Jane Gebbie fod platfformau digidol a'r strategaeth o'u cwmpas fel arfer yn cael eu cynnal gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol.[30]

39. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod dros £3 miliwn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer CLlLC i gefnogi gwelliant dan arweiniad y sector mewn gwasanaethau digidol i gynorthwyo cynghorau i wella. Dywedodd hefyd eu bod

[23] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 335
[24] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 65
[25] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 66
[26] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 80
[27] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 83
[28] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 83
[29] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 71
[30] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 78

yn gweithio gyda llywodraeth leol i gryfhau'r cyfraniad y gall cydweithio a gweithio rhanbarthol ei wneud.[31]

40. O ran gwaith ataliol, clywsom fod gwaith yn digwydd ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â llywodraeth leol, i asesu pwysau'r galw a meddwl am bolisïau i fodloni a rheoli'r gofynion hynny.[32]

41. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod cyllid heb ei neilltuo yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb i anghenion eu poblogaeth. Dywedodd:

> *"there will be different pressures, perhaps, or similar pressures but to different extents in different areas, and I think that that is something that local authorities have made clear to us, around how they're able to design services."* [33]

42. Aeth un o swyddogion Llywodraeth Cymru ymlaen i ddweud bod y drafodaeth am neilltuo ai peidio yn drafodaeth gyson rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol:

> *"we have a piece of work about reducing the administrative burden, which is focused on finding the right balance between ministerial grants and local government flexibility…we are in a position at the moment where local government…is making a very powerful case for increasing the amount of unhypothecated money that we give out to local government. Their argument is that they can actually plan better for that money, they can combine that money, and they can use it more flexibly over a number of things, and I would argue including prevention, which is an integral part of service delivery, rather than a separate identifiable thing."*[34]

Ein barn ni

43. Er gwaethaf cynnydd yn y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2025-26, mae awdurdodau lleol yn dal i fod mewn cyfnod heriol iawn ac yn parhau i wynebu pwysau cyllidebol sylweddol a fydd yn debygol o arwain at gynnydd yn y dreth gyngor a thoriadau i wasanaethau.

[31] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 190
[32] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 339
[33] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 343
[34] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 347

44. Clywsom nad oes gan lywodraeth leol unrhyw sicrwydd ynghylch cyllidebau a'i bod yn amlwg yn ei chael hi'n anodd. Byddai setliadau amlflwyddyn o gymorth os ydym am weld awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir, ond mae angen cyfeiriad mwy strategol arnynt hefyd gan Lywodraeth Cymru. Dylai fod mwy o gynlluniau ariannol tymor canolig a thymor hir integredig ar draws y sector cyhoeddus, er mwyn osgoi ymyl dibyn bob blwyddyn wrth osod cyllideb.

45. Clywsom fod gwaith ataliol yn aml yn cael ei dorri pan fo pwysau ar gyllidebau, er mwyn blaenoriaethu cyllid ar gyfer anghenion tymor byr a/neu wasanaethau statudol. Fodd bynnag, dylai pwysau o'r fath gael ei ddefnyddio fel sbardun ar gyfer newid mawr. Gall buddsoddi mewn gwaith ataliol a thrawsnewidiol, yn enwedig mewn gwasanaethau cost uchel a rhai y mae galw mawr amdanynt, megis gofal cymdeithasol, ddarparu arbedion effeithlonrwydd a helpu llywodraeth leol yn y tymor hir.

46. Roedd hi'n galonogol clywed bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £3 miliwn i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau digidol yn y sector, a fydd yn helpu gyda rhywfaint o'r gwaith trawsnewidiol sydd ei angen. Er ein bod yn cydnabod bod llywodraeth leol wedi galw'n rheolaidd am i fwy o'i chyllid gael ei chynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo, mae yna achos cryf hefyd dros gyllid penodol wedi'i glustnodi pan fo Llywodraeth Cymru wedi asesu y bydd cyllid yn helpu i sbarduno newid, yn enwedig mewn meysydd lle mae galw mawr fel gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb hefyd i weithio o fewn yr adnoddau sydd ganddynt i geisio trawsnewid gwasanaethau a chydweithio er mwyn canfod arbedion effeithlonrwydd. Mae enghreifftiau da ledled Cymru i waith ataliol a thrawsnewidiol, ond nid yw'n glir ar hyn o bryd pa mor effeithiol mae awdurdod lleol yn rhannu'r arferion da hynny, a chredwn fod mwy y gellid ei wneud i ysgogi arbedion effeithlonrwydd a gwella darpariaeth gwasanaethau.

47. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfraniad i'w wneud o ran annog cynnydd ar wasanaethau ataliol a thrawsnewid, a hwyluso cydweithio rhwng partneriaid yn y sector. Rydym yn poeni bod cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth o'r fath ar goll ar hyn o bryd. Er enghraifft, gallai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn llwybr i hwyluso cydweithredu ehangach a rhannu arfer da ac adnoddau. Fodd bynnag, rydym yn poeni nad yw'r Cyd-bwyllgorau'n cyflawni yn erbyn eu diben bwriedig, ac efallai nad yw awdurdodau lleol yn ymgysylltu â nhw fel y dylent. Byddem yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i asesu sut mae'r Cyd-bwyllgorau'n perfformio ac a ydynt yn cyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau presennol. Dylai fod

fframwaith pwyso a mesur i sicrhau bod Cyd-bwyllgorau'n cyflawni eu dyletswyddau ac yn cyrraedd eu potensial. Gallai Llywodraeth Leol hefyd elwa ar fwy o gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ar y ffordd orau o ddefnyddio'r Cyd-bwyllgorau.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei blaenoriaethau strategol ar gyfer llywodraeth leol a sut mae'r setliad llywodraeth leol dros dro yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried clustnodi adnoddau ar gyfer gwaith ataliol, cydweithredol a thrawsnewidiol i helpu i ymdopi â'r pwysau presennol ar gyllid, yn enwedig wrth ymateb i bwysau ar ofal cymdeithasol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru asesu a yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cyflawni eu dyletswyddau statudol a rhoi cyfeiriad strategol i awdurdodau lleol i wella eu cydweithio rhanbarthol a rhannu arferion da.

Y fformiwla gyllido

Grant Cynnal Refeniw

48. Y grant cynnal refeniw (RSG) yw grant heb ei neilltuo Llywodraeth Cymru a ddosberthir i awdurdodau lleol drwy fformiwla seiliedig ar anghenion. Mae'r grant yn cefnogi gwasanaethau awdurdodau lleol yn gyffredinol (yn hytrach na grantiau penodol at ddibenion penodol). Cyfanswm y cymorth cyllid grant sydd ar gael i awdurdodau lleol yn 2025-26 yw £4.995 biliwn.

49. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw *gyllid gwaelodol* wedi'i ddyrannu o fewn y grant cynnal refeniw, a ddarparwyd yn y gorffennol yn ôl disgresiwn y Gweinidogion. Fe'i defnyddir fel arfer i sicrhau nad oes unrhyw awdurdod yn disgyn o dan drothwy penodol, i'w bennu gan Ysgrifennydd y Cabinet. Nid yw cyllid atodol yn cael ei ddosbarthu drwy'r fformiwla gyllido, ond mae'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol i awdurdodau targed. Fodd bynnag, mae'r cyllid ychwanegol heb ei neilltuo.

Cyllido gwaelodol

50. Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu a ddylid darparu cyllido gwaelodol ychwanegol, yn seiliedig ar ganlyniad terfynol y setliad llywodraeth leol. Yn y gorffennol, yn enwedig pan mae cyllidebau Llywodraeth Cymru wedi cael eu gwasgu, darparwyd cyllid gwaelodol i'r awdurdodau hynny a ddisgynnodd o dan drothwy penodol.

51. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi yn ei llythyr at awdurdodau lleol bod y "llywodraeth yn agored i ystyried darparu cyllido gwaelodol ychwanegol yn y gyllideb derfynol". Yn ystod ein sesiwn tystiolaeth lafar, esboniodd fod hyn oherwydd yr ystod o gynnydd eleni yn y fformiwla gyllido a'r dyraniad.[35]

Grantiau Refeniw Penodol

52. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1.086 biliwn mewn cyllid grant refeniw penodol dangosol yn setliad 2025-26. Mae hyn yn sylweddol is na'r hyn a ddarparwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, dyrannodd setliad llywodraeth leol terfynol 2024-25 £1.438 biliwn mewn grantiau penodol. Fodd bynnag, mae rhai grantiau wedi'u trosglwyddo i'r grant cynnal refeniw, tra bod eraill i'w cadarnhau o hyd. Darperir ffigur cymharol ar gyfer 2024-25 o £1.123 biliwn, sy'n eithrio trosglwyddiadau a grantiau i'w cadarnhau ar gyfer cymhariaeth debyg am debyg.

53. Mae llywodraeth leol wedi galw ers tro am lai o grantiau penodol, gyda chyllid yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol drwy'r grant cynnal refeniw.

54. Cododd y Cynghorydd Jane Gebbie rai materion yn ymwneud â chyllid grant refeniw penodol a'r cyflymder y mae manylion y grant yn cyrraedd awdurdodau lleol, sy'n gallu achosi anawsterau. Dywedodd:

> *"If we're going to have a grant, that's fine, but we need acknowledgement and we need to understand what that grant means, what it entails, and we need that real clarity around those grants much quicker".*[36]

Dosbarthiad awdurdodau lleol

55. Bydd llywodraeth leol yng Nghymru yn derbyn cynnydd cyfartalog o 4.3 y cant fel rhan o'r setliad dros dro hwn, neu ychydig dros £6.1 biliwn mewn cyllid craidd. Caiff hwn ei ddosbarthu i'r 22 awdurdod lleol drwy'r fformiwla gyllido llywodraeth leol ac mae'n seiliedig ar yr asesiadau gwariant safonol. Mae'r rhain yn gyfrifiad tybiannol o'r hyn y mae angen i bob cyngor ei wario i ddarparu lefel safonol o wasanaeth.

56. Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru'r tablau cyhoeddedig ers iddi gyhoeddi'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar 11 Rhagfyr 2024, gan ddiwygio'r ffigurau ar gyfer dyraniadau wedi'u haddasu 2024-25. Mae'r tabl diwygiedig yn

[35] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 297
[36] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 50

dangos y newid canrannol yn y Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer 2025-26 wrth gymharu tebyg am debyg â 2024-25 yn amrywio o 2.6 y cant ar gyfer Sir Fynwy (2.8 y cant yn flaenorol) i 5.6 y cant ar gyfer Casnewydd (heb newid).

Tabl 1a wedi'i ddiweddaru – Cywirwyd colofn Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2024-25 wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau yn Nhabl 1a ar 9 Ionawr 2025. Nid yw hyn yn effeithio ar y swm a ddyrannwyd i bob awdurdod lleol yn y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2025-26. Fodd bynnag, mae'r newid canrannol rhwng blynyddoedd yn newid, felly mae'r safle ar gyfer pob awdurdod wedi newid.

Tabl 1a: Newid mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF), wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau, yn ôl Awdurdod Unedol (£000)

Awdurdod Unedol	Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2024-25 [Nodyn 1]	Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2025-26	Newid fel canran	Rheng
Casnewydd	311,915	329,311	5.6%	1
Caerdydd	640,911	674,571	5.3%	2
Merthyr Tudful	126,901	133,148	4.9%	3
Abertawe	446,796	468,469	4.9%	4
Rhondda Cynon Taf	497,404	521,279	4.8%	5
Blaenau Gwent	147,468	154,532	4.8%	6
Torfaen	183,439	192,215	4.8%	7
Sir Ddinbych	205,729	215,222	4.6%	8
Caerffili	357,689	373,980	4.6%	9
Castell-nedd Port Talbot	293,059	306,217	4.5%	10
Wrecsam	239,206	249,511	4.3%	11
Sir Gaerfyrddin	360,749	375,747	4.2%	12
Pen-y-bont ar Ogwr	266,326	276,640	3.9%	13
Conwy	210,992	218,586	3.6%	14
Ceredigion	138,945	143,938	3.6%	15
Ynys Môn	130,907	135,605	3.6%	16
Sir Benfro	224,985	232,966	3.5%	17
Sir y Fflint	265,881	274,779	3.3%	18
Bro Morgannwg	216,231	223,420	3.3%	19
Powys	242,255	250,184	3.3%	20
Gwynedd	239,296	246,818	3.1%	21
Sir Fynwy	130,297	133,704	2.6%	22
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	**5,877,384**	**6,130,839**	**4.3%**	

Tabl 1a gwreiddiol

Tabl 1a: Newid mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF), wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau, yn ôl Awdurdod Unedol (£000)

Awdurdod Unedol	Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2024-25	Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2025-26	Newid fel canran	Rheng
Casnewydd	311,772	329,311	5.6%	1
Caerdydd	640,615	674,571	5.3%	2
Merthyr Tudful	126,720	133,148	5.1%	3
Blaenau Gwent	147,440	154,532	4.8%	4
Abertawe	447,243	468,469	4.7%	5
Torfaen	183,576	192,215	4.7%	6
Sir Ddinbych	205,561	215,222	4.7%	7
Rhondda Cynon Taf	497,940	521,279	4.7%	8
Caerffili	357,880	373,980	4.5%	9
Castell-nedd Port Talbot	293,239	306,217	4.4%	10
Wrecsam	239,036	249,511	4.4%	11
Sir Gaerfyrddin	361,072	375,747	4.1%	12
Pen-y-bont ar Ogwr	266,124	276,640	4.0%	13
Conwy	210,750	218,586	3.7%	14
Sir Benfro	224,858	232,966	3.6%	15
Ynys Môn	130,889	135,605	3.6%	16
Ceredigion	138,958	143,938	3.6%	17
Bro Morgannwg	216,058	223,420	3.4%	18
Sir y Fflint	266,074	274,779	3.3%	19
Gwynedd	239,101	246,818	3.2%	20
Powys	242,414	250,184	3.2%	21
Sir Fynwy	130,062	133,704	2.8%	22
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	**5,877,384**	**6,130,839**	**4.3%**	

57. Roedd yn amlwg o'n sesiwn dystiolaeth gyda CLlLC bod awydd i edrych ar y fformiwla gyllido llywodraeth leol, gan gynnwys sut y mae'r setliad yn cael ei gyfrifo a'r data sy'n cael ei ddefnyddio.

58. Yn ôl y Cynghorydd Gary Pritchard, mae'r fformiwla bresennol yn cosbi awdurdodau gwledig ac awdurdodau sydd â phoblogaeth hŷn.[37] Cytunodd y Cynghorydd Mark Pritchard nad yw'n addas i'r diben bellach—o ran poblogaeth ac ardaloedd o amddifadedd ac ati.[38]

59. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y fformiwla gyllido yn parhau i gael ei hadolygu, yn flynyddol, gan yr is-grŵp dosbarthu.[39] Aeth ymlaen i ddweud bod yr is-grŵp dosbarthu yn gweithio gyda'r is-grŵp cyllid i adolygu'r lefelau o amddifadedd a'r elfen teneurwydd poblogaeth i wirio'r pwysoliad a ddefnyddir

[37] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 39
[38] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 60
[39] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 298

ym mhob fformiwla. Gan esbonio ei bod yn ceisio cyflymu cynnydd ar y gwaith hwn, dywedodd:

> *"The trouble is, we have to do that for each block of the formula separately, and it is not straightforward or quick, not least because you then have to break it down to quite small geographical units in order to be able to assess the sparsity element.... So, the finance sub-group agreed that it would be preferable to apply all the changes in one go, and that means we have to do all the work before we can see the whole impact."*[40]

Ardrethi Annomestig (NDR)

60. Mae ardrethi annomestig ("NDR") (sy'n fwy cyfarwydd fel ardrethi busnes) yn ffurfio rhan sylweddol o'r cyllid refeniw craidd y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddyrannu i lywodraeth leol. Dosberthir hwn, ynghyd â'r grant cynnal refeniw, i'r 22 awdurdod lleol drwy'r fformiwla gyllido.

61. Ar gyfer 2025-26, roedd £1.136 biliwn mewn ardrethi annomestig wedi'i ailddosbarthu ar gael. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r lefel ardrethi annomestig ar gyfer 2024-25, er y gall y swm amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

62. Mae'r setliad hwn hefyd yn cyflwyno'r cysyniad o ardrethi a ddargedwir. Bydd awdurdodau cyfansoddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn derbyn cyfran o £268,000 mewn ardrethi a ddargedwir a fydd yn cael ei dalu fel rhan o'r setliad. Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at awdurdodau lleol yn esbonio bod y swm o £268,000 yn cynrychioli "ardrethi cronedig sydd wedi'u priodoli i Fargen Ddinesig Bae Abertawe ers 2018-19". Mae'r llythyr yn dweud bod y ffigur cyfatebol "wedi'i dalu i mewn i'r pwll NDR a'i ddosbarthu drwy'r setliad mewn blynyddoedd blaenorol", ond y bydd ardrethi a ddargedwir "yn nodwedd ar setliadau yn y dyfodol, ac mae'n debygol y bydd yn cynyddu mewn gwerth wrth i drefniadau eraill ar gyfer dargadw ardrethi ddod i rym".

63. Mae'r newid hwn mewn polisi ardrethi annomestig yng Nghymru yn symud i ffwrdd o gonfensiwn hirsefydlog o 'gyfuno' ardrethi annomestig er budd pawb.

64. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod y symiau arian parod a fydd yn cael eu dargadw gan gytundebau o'r fath yn debygol o fod yn

[40] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 299-300

fach iawn o gymharu â'r gyllideb gyffredinol yn y blynyddoedd i ddod. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"as a consequence, the impact on those authorities that aren't able to generate their own non-domestic rates, which therefore benefit from the pooling arrangement, is likely to be marginal, if they notice it at all."*[41]

Ein barn ni

65. Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet yn agored i ystyried darparu cyllid gwaelodol ychwanegol yn y gyllideb derfynol. O gofio ei bod yn dal i fod yn gyfnod heriol iawn i lywodraeth leol, gyda'r galw a'r costau yn cynyddu, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid gwaelodol i ddiogelu'r awdurdodau lleol hynny sy'n disgwyl setliad sy'n llawer is na'r cyfartaledd o 4.3 y cant.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid gwaelodol ychwanegol yn y gyllideb derfynol. Dylai derbynwyr unrhyw gyllid gwaelodol gael eu hysbysu am hynny a'r swm cyn gynted â phosibl fel y gallant gynllunio cyllidebau yn unol â hynny.

66. Fodd bynnag, rydym yn ystyried bod yr angen i ddarparu cyllid gwaelodol ychwanegol yn tanseilio fformiwla gyllido llywodraeth leol. Credwn felly ei bod hi'n bryd cynnal adolygiad llawn o'r fformiwla i sicrhau ei bod yn dosbarthu cyllid yn deg i bob awdurdod lleol. Mae awydd clir yn y sector llywodraeth leol i gynnal adolygiad o'r fath, o ystyried pryderon nad yw'n adlewyrchu'r heriau demograffig a'r heriau i wasanaethau ledled Cymru ar hyn o bryd. Roeddem yn bryderus o glywed cynrychiolwyr CLlLC yn datgan bod y fformiwla gyllido'n cosbi ardaloedd gwledig a'r rhai sydd â phoblogaeth hŷn. Felly, hoffem weld y gwaith y mae'r is-grwpiau dosbarthu a chyllid yn ei wneud ar hyn o bryd ar lefelau o amddifadedd a bod yr elfen teneurwydd poblogaeth yn cael ei hymestyn i gynnwys y boblogaeth hŷn fel dangosydd o angen.

Casgliad 1. Hoffem weld adolygiad llawn o'r fformiwla gyllido llywodraeth leol a bod awdurdodau lleol â phoblogaeth hŷn sy'n heneiddio yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y fformiwla.

67. Rydym yn pryderu am y cysyniad o ardrethi a ddargedwir a symud i ffwrdd o gyfuno cyfraddau annomestig er budd pawb.

[41] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 369

68. Rydym yn gwerthfawrogi bod hwn yn ddatblygiad y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei fonitro wrth symud ymlaen ac, er gwaethaf y symiau bach sy'n cael eu dargadw ar hyn o bryd, mae hwn yn ddatblygiad a fydd yn gofyn am graffu manwl dros y blynyddoedd nesaf.

69. Mae'r polisi ar gyfer ardrethi a ddargedwir yn deillio o ddull cynllunio economaidd blaenorol Llywodraeth y DU, un nad yw'n addas i Gymru o bosibl. Gallai hefyd effeithio'n negyddol ar refeniw cynghorau tlotach sydd â marchnadoedd eiddo llai bywiog, gan agor ymhellach y bwlch rhwng yr ardaloedd tlotaf yng Nghymru a'r rhai mwy ffyniannus. Rydym hefyd yn poeni nad yw'n ddatblygiad polisi cydlynol, ac nad yw'n seiliedig ar weledigaeth na fframwaith polisi rhanbarthol.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ac asesu goblygiadau economaidd ac ariannol ardrethi a ddargedwir yn ofalus, ac ystyried a yw'r polisi'n cyd-fynd yn briodol â'r egwyddor hirsefydlog o gyfuno ardrethi annomestig i leihau anghydraddoldeb ledled Cymru.

Cyllid cyfalaf a benthyca

70. Mae dyraniadau Cyfalaf Dangosol yn y setliad dros dro yn dangos bod dros £1 biliwn mewn cyfalaf ar gael i awdurdodau lleol, gyda £200 miliwn o hyn yn cynnwys cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo, y gall awdurdodau lleol bennu'r ffordd orau o'i ddefnyddio, megis fel arian cyfatebol o bosibl i gynlluniau grant cyfalaf penodol eraill neu i ymgymryd â gwaith cyfalaf arall.

71. Roedd cyllid cyfalaf cyffredinol wedi aros yn sefydlog ar £180 miliwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae £20 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer 2025-26, gydag Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd yn cefnogi'r "cynnydd chwyddiannol mewn costau a rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Awdurdodau wrth ariannu prosiectau cyfalaf llai".

72. Yn ogystal â'r £200 miliwn mewn cyllid cyfalaf cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £30 miliwn yn ychwanegol mewn cyllid cyfalaf i gefnogi awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio eu hystad. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi cynyddu £10 miliwn ers cyllideb 2024-25.

73. Y brif ffynhonnell o fenthyca i ymgymryd â phrosiectau cyfalaf y tu allan i gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yw drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, er y gall awdurdodau lleol fenthyca gan sefydliadau ariannol eraill hefyd.

74. Mae CLlLC yn nodi yn ei phapur tystiolaeth bod cyfraddau llog presennol PWLB "yn cael effaith ar gynlluniau a ariennir gan Fenthyca Darbodus, o ran yr achosion busnes ar gyfer cyfnodau benthyca a thalu'n ôl". Mae hyn yn cynnwys cynlluniau megis buddsoddi i arbed, a fydd yn cael effaith ar gyllidebau refeniw awdurdodau lleol, sy'n anffodus pan noda CLlLC bod hyn yn dod "ar adeg pan fydd angen adnoddau ychwanegol sylweddol i fuddsoddi" mewn meysydd allweddol.[42]

75. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn y Cyfarfod Llawn ei fod wedi "penderfynu darparu cymorth refeniw a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i hunangyllido £60 miliwn o gyllid cyfalaf pellach i'w wario mewn rhaglen newydd o gynnal a chadw priffyrdd lleol".[43]

76. Ar y pwynt hwn, cododd y Cynghorydd Jane Gebbie bryderon ynghylch gallu awdurdodau lleol i ariannu'r benthyca ychwanegol hwn:

> *"Our highways have suffered over the years. It's okay us being able to borrow, a more extensive funding package...but we haven't got the revenue to support that funding to apply for it in the first place. So, I do think it's something that we really would encourage Welsh Government to give some serious consideration to."*[44]

77. Ychwanegodd y Cynghorydd Gebbie hefyd fod costau wedi dyblu dim ond i wneud unrhyw waith cynnal a chadw ffyrdd, gan roi mwy o bwysau ar y cyllid sydd ar gael i awdurdodau.[45]

78. Cytunodd y Cynghorydd Mark Pritchard nad yw'n ddigon a dywedodd y byddai'n ddiolchgar am fwy o gyllid refeniw i alluogi mwy o fenthyca.[46]

Cronfeydd wrth gefn

79. Yn adroddiad Archwilio Cymru ym mis Rhagfyr 2024 ar gynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol, nodwyd nad yw cronfeydd wrth gefn "wastad yn cael eu defnyddio mewn modd strategol", gyda rhai cynghorau'n eu defnyddio fel "strategaethau pontio" i fantoli cyllidebau "yn hytrach na chefnogi trawsnewid tymor hwy".

[42] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[43] Y Cyfarfod Llawn, 10 Rhagfyr 2024, paragraff 174
[44] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 51
[45] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 57
[46] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 60

80. Yn y pen draw, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dweud bod defnyddio cronfeydd dim ond fel mecanwaith i ariannu pwysau yn ystod y flwyddyn heb eu defnyddio i ategu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy "yn annhebygol o sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy".

81. Mae'r adroddiad yn nodi'r newid mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fel y mae cyngor yn ei ddymuno ac nad ydynt wedi'u neilltuo at ddiben penodol) rhwng 2022-23 a 2023-24. Roedd mwyafrif y cynghorau (lle mae data ar gael) wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, i raddau amrywiol, yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

82. Yn seiliedig ar gyfrifon drafft ar gyfer 2023-24 roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi'u gweld adeg cyhoeddi, mae gan ddau gyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy "sy'n cyfateb i oddeutu 10% o gost net gwasanaethau". Mae gan bum cyngor arall "lai nag 20% o gost net gwasanaethau mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy".

83. Yn ôl y Cynghorydd Gary Pritchard, mae'n hawdd dweud 'Defnyddiwch gronfeydd wrth gefn' ond mae angen i awdurdodau lleol hefyd fod yn ofalus i beidio â defnyddio gormod o gyllid wrth gefn a sicrhau eu bod yn cynnal cronfeydd wrth gefn. Dywedodd: "Unwaith mae o wedi mynd, mae o wedi mynd, ac mae o'n gadael twll mwy ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod".[47]

84. Cytunodd y Cynghorydd Mark Pritchard, gan nodi bod cronfeydd wrth gefn yno am reswm, er enghraifft, i ymdrin â thywydd garw a llifogydd.[48] Dywedodd y gallai awdurdodau lleol eu gwario ond wedyn nad oes modd ail-lenwi'r coffrau oherwydd nad oes ganddynt yr arian[49]. Yn ôl y Cynghorydd Mark Pritchard, os nad yw Llywodraeth Cymru am i awdurdodau lleol gael cronfeydd wrth gefn, gallent gyfyngu ar faint ddylai cynghorau ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, nododd y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol wedyn ofyn i Lywodraeth Cymru am fwy o arian mewn sefyllfa o'r fath.[50]

85. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei bod yn arfer dda i awdurdodau lleol fynd ati'n rheolaidd i adolygu cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, er mwyn rhyddhau neu eu defnyddio at ddibenion gwahanol os nad oes eu hangen mwyach.[51]

[47] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 124
[48] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 129
[49] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 130
[50] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 129
[51] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 297

Ein barn ni

86. Nodwn fod Archwilio Cymru'n dweud y dylai awdurdodau lleol fod yn defnyddio cronfeydd wrth gefn mewn ffordd fwy strategol, ond rydym hefyd yn cydnabod yr heriau o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllidebau refeniw. Mae gan gynghorau gronfeydd wrth gefn am reswm, ac unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn wedi mynd, gall fod yn anodd eu hadeiladu eto yn yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni. Fodd bynnag, byddem yn annog awdurdodau lleol i asesu eu cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Er enghraifft, gallai cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi ond nad ydynt wedi'u defnyddio ers nifer o flynyddoedd, a lle nad oes cynlluniau i'w tynnu i lawr chwaith, fod yn y gronfa gyffredinol a chael eu defnyddio i leddfu pwysau arall. Felly, rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn arfer dda i awdurdodau lleol fynd ati'n rheolaidd i adolygu cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi ac ystyried a ellid eu defnyddio'n fwy strategol.

Casgliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i annog a pharhau i drafod adolygu cronfeydd wrth gefn a gwneud y mwyaf ohonynt yn rheolaidd.

Gweithlu Llywodraeth Leol

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

87. Fel y nodir yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at awdurdodau lleol adeg Cyllideb Hydref 2024, gwnaeth Llywodraeth y DU newidiadau i'r cyfraddau a'r trothwy ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NICs) cyflogwyr o 1 Ebrill 2025. Mae'r llythyr yn nodi:

> *"Mae Trysorlys EF wedi cadarnhau y bydd yn darparu cyllid ychwanegol yn hanner cyntaf 2025-2026 i Lywodraeth Cymru i adlewyrchu effaith y cynnydd yn NICs cyflogwyr ar gyfer staff y sector cyhoeddus, yn dilyn diffiniad ONS o gyflogai sector cyhoeddus, ar draws y cyrff perthnasol yng Nghymru. Yn ôl amcangyfrifon llywodraeth leol mae hyn yn rhyw £109m ar gyfer Awdurdodau yn y flwyddyn i ddod. Wrth nodi'r setliad llywodraeth leol dros dro, gallaf gadarnhau nad yw hyn wedi'i gynnwys yn y Setliad dros dro presennol. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyllid y mae'n ei gael oddi wrth Drysorlys*

> *EF i helpu llywodraeth leol a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i dalu'r cynnydd yng nghostau NICs cyflogwyr."*

88. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn mynd ymlaen i ddweud ei bod yn cydnabod y bydd awdurdodau lleol yn "ystyried effeithiau costau NICs gan y trydydd sector a darparwyr gwasanaethau eraill", ond y dylai'r "sicrwydd hwn eich galluogi i wneud rhagdybiaethau rhesymol wrth gynllunio eich cyllidebau mewn perthynas â'ch gweithlu eich hun".

89. Dywedodd y Cynghorydd Jane Gebbie fod llywodraeth leol yn ddiolchgar y bydd cyllid i dalu costau Yswiriant Gwladol gwasanaethau cyhoeddus ond nododd fod y sector yn ddibynnol iawn ar ddarpariaeth a gomisiynir nad yw wedi'i chynnwys yn y cyllid ychwanegol gan Drysorlys EF.[52] Aeth y Cynghorydd Gebbie ymlaen i ddweud bod CLlLC wedi amcangyfrif mai'r gost ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol a gomisiynir yw £44 miliwn i awdurdodau lleol, gan nodi mai dim ond un dangosydd yw hwnnw y mae CLlLC o'r farn na fydd y £109 miliwn yn ei dalu'n uniongyrchol.[53]

90. Roedd ansicrwydd hefyd ymhlith cynrychiolwyr CLlLC ynghylch faint o'r gwariant mewnol ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol fydd yn cael ei dalu gan y cyllid ychwanegol, a fydd yn cynnwys gwasanaethau statudol yn unig a phryd y bydd awdurdodau lleol yn gwybod y swm. Dywedodd y Cynghorydd Gary Pritchard:

> *"Rydyn ni'n clywed mai mis Mehefin fydd hi cyn ein bod ni efo unrhyw fath o syniad faint o arian fydd yn dod yn ôl. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni fod wedi gosod ein cyllidebau ni ymhell cyn hynny, felly mae yna elfen o risg yn gorfod derbyn un ai ein bod ni'n defnyddio arian wrth gefn, neu yn gorfod codi ein trethi cyngor i gyfro yr hyn nad ydyn ni ddim yn gwybod. So, mae o yn ychwanegu ansicrwydd i'r trafodaethau ynglŷn â gosod cyllideb, does dim dwywaith am hynny. Mae'r risg yn sylweddol".*[54]

91. Galwodd y Cynghorydd Jane Gebbie am lythyr o gysur ynghylch Yswiriant Gwladol o ystyried bod pob awdurdod lleol yn gweithio o dan risg. Esboniodd eu bod yn gosod cyllidebau ar hyn o bryd ond nad ydynt yn gwybod beth i'w

[52] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 22
[53] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 34
[54] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 30

ddisgwyl ond pe gallent ddeall pa isafswm y gallai pob cyngor ei ddisgwyl, bydd hynny'n mynd rhywfaint o'r ffordd at ddibenion cynllunio.[55]

92. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru'n disgwyl derbyn y cyllid ychwanegol tua diwedd y gwanwyn, ond nododd nad ydynt wedi cael cadarnhad eto o faint o gyllid ychwanegol y bydd Cymru'n ei dderbyn. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU, y Trysorlys a swyddogion y Trysorlys i gael cadarnhad o fanylion y lefel honno o gymorth.[56]

93. Eglurodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod y ffigur o £109 miliwn yn amcangyfrif o gost y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol a bod trafodaethau am y swm gwirioneddol yn parhau[57]. Dywedodd:

> *"it's not money we're providing, it's the estimate of the cost. We need to be clear about that, because that sets the ability of us and local authorities to plan, when you understand the scale."*[58]

94. O ran talu costau Yswiriant Gwladol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a roddir ar gontractau allanol a gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector, a bod yr £109 miliwn yn ymwneud â phobl sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"The UK Government has said it will use the ONS definition of public sector, and we certainly recognise organisations and businesses commissioned by public sector to provide services, and third sector organisations, are understandably concerned about the impact of the changes to employer national insurance contributions…We've committed to a three-year funding agreement for the third sector, but I very much understand the concerns of the third sector.*[59]

Diswyddiadau a swyddi gwag

95. Clywsom fod llywodraeth leol wedi colli 40 y cant o'i staff ers 2010, ac nad yw'r sector mor wydn ag ydoedd ar un adeg. Wrth groesawu'r cynnydd o 4.3 y cant ledled Cymru, nododd y Cynghorydd Jane Gebbie fod cytundeb cyflog

[55] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 51
[56] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 235
[57] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 246
[58] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 231
[59] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 259

cenedlaethol ar y cyd rhwng y cynghorau yn 5.77 y cant, sy'n dangos na fydd ganddynt yr adnoddau i dalu eu staff yn briodol.[60]

96. Dywedodd y Cynghorydd Gebbie wrthym eu bod yn cael trafferth darparu gwasanaethau a'i bod yn poeni am lefelau salwch a'r straen sydd ar y gweithlu gan nad oes 'slac' yn y system.[61] Aeth ymlaen i ddweud nad oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr unrhyw ddiswyddiadau gan na allant lenwi rhai o'r swyddi gwag ar y telerau ac amodau a gynigir sydd, yn ei dro, yn cael effaith ar staff.[62]

97. Yn yr un modd, dywedodd y Cynghorydd Gary Pritchard a'r Cynghorydd Mary Ann Brocklesby nad ydynt yn edrych ar ddiswyddiadau. Dywedodd y Cynghorydd Brocklesby:

> *"we are, like others, not filling vacancies, partly because of the vacancy freeze, but also, partly, because it's very difficult in some areas...to get people on the wages that are offered."*[63]

98. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"some of our staff are doing double the role, triple the role, are moving around the county as we keep some services open on one day in one area, and some services open on another day in another area....But we cannot carry on like this."*[64]

99. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod costau staff yn gyfran uchel o gyfanswm y costau i awdurdodau lleol a bod llawer o awdurdodau'n rheoli swyddi gwag fel ffordd o reoli cyllidebau.[65]

Ein barn ni

100. Rydym yn bryderus iawn am effaith newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol ar refeniw awdurdodau lleol yn y tymor byr, yn enwedig gan nad yw'n sicr faint yn union o gyllid ychwanegol a ddarperir a phryd.

101. Rydym hefyd yn pryderu am yr effaith bosibl ar y trydydd sector a darparwyr eraill sy'n cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau. Mae nifer o gynghorau'n rhoi eu gwasanaethau allan ar gontract a/neu'n dibynnu ar

[60] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 21
[61] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 94
[62] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 94
[63] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 100
[64] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 101-102
[65] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 319

sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cymorth allweddol mewn meysydd megis gofal cymdeithasol, addysg a thai. Felly, mae awdurdodau lleol yn bryderus iawn am eu gallu i ddarparu rhai gwasanaethau rheng flaen os na fydd y cyllid sy'n debygol o gael ei ddarparu gan Drysorlys y DU ond yn cynnwys staff y cyngor sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Clywsom efallai na fydd rhai awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau allweddol heb staff allanol a staff y trydydd sector, sy'n destun pryder arbennig.

102. Rydym yn cydnabod sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet bod Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU, y Trysorlys a swyddogion y Trysorlys i egluro manylion y lefel honno o gymorth. Fodd bynnag, mae angen eglurder ar frys ar awdurdodau lleol er mwyn gallu cynllunio a gosod cyllidebau erbyn mis Mawrth. Mae angen iddynt wybod pryd y bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu a faint y byddant yn ei gael.

103. Rydym yn poeni hefyd am effaith y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y sector llywodraeth leol yn y tymor hir, gan y gallent waethygu problemau'r gweithlu yn hawdd a gallent arwain at fwy o ddiswyddiadau. Clywsom fod awdurdodau lleol eisoes heb ddigon o adnoddau, gyda lefelau uchel o salwch a straen a staff yn cyflawni dwy neu dair rôl.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddarparu datganiad sefyllfa ar y cyllid ychwanegol i adlewyrchu effaith y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyfer staff y sector cyhoeddus, i gefnogi'r broses o bennu'r gyllideb llywodraeth leol. Dylai hyn gynnwys rhagdybiaeth o isafswm y cyllid y gallai pob cyngor ei ddisgwyl ac eglurhad o pryd y bydd cyhoeddiad am swm y cyllid yn cael ei wneud.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau pellach i Lywodraeth y DU am effaith cynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru, a diweddaru'r Senedd ar y trafodaethau hyn cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

3. Tai ac adfywio

Cyllid cyffredinol ar gyfer Tai ac Adfywio

104. Y cyfanswm yng nghyllideb ddrafft 2025-26 ar gyfer tai ac adfywio yw £1.266 biliwn, sef 4.9 y cant o gyfanswm gwariant cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae hyn £166.7 miliwn (15.2 y cant) yn fwy mewn termau arian parod na ffigur llinell sylfaen y gyllideb. Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cymharu dyraniadau

ariannol yn erbyn llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2024-25. Mae hwn yn ddull gwahanol i flynyddoedd blaenorol gan fod y llinell sylfaen ar gyfer cymharu wedi'i haddasu i gyfrif am gytundebau cyflog sy'n uwch na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer yn 2024-25 a chynnydd mewn costau pensiwn i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Mae cyllid canlyniadol ar gyfer y rhain bellach wedi'i dderbyn gan Lywodraeth y DU.

105. O ran refeniw, y gyllideb ddrafft yw £234.1 miliwn, sydd £2.8 miliwn (1.2 y cant) yn fwy na'r gyllideb llinell sylfaen. O ran cyfalaf, y gyllideb ddrafft yw £1.03 biliwn, sydd £163.8 miliwn (18.9 y cant) yn fwy na'r gyllideb llinell sylfaen.

106. Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet fod y gyllideb ddrafft hon yn blaenoriaethu'r cyflenwad o gartrefi cymdeithasol newydd a chymorth ar gyfer perchentyaeth, yn ogystal â buddsoddi mewn gwella'r stoc bresennol. Dywedodd y papur fod y dyraniadau drafft:

> *"wedi cael eu targedu at ymyriadau sy'n fforddiadwy ac sy'n cynnig gwerth am arian ar yr un pryd â cheisio diogelu gwasanaethau rheng flaen sy'n amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas."*[66]

107. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet y gyllideb fel un gadarnhaol iawn a dywedodd wrthym fod ffocws ar y cyflenwad tai ac atal, gan ychwanegu:

"investment in prevention and support through the housing support grant will have a positive impact on vulnerable individuals and households."[67]

108. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y byddai hi bob amser yn hoffi gweld cyfran uwch o gyllidebau yn cael eu dyrannu ar gyfer tai ac adfywio, ond dywedodd fod angen cydbwyso blaenoriaethau gwahanol. Derbyniodd na fydd un gyllideb yn gallu datrys yr holl bwysau sy'n wynebu tai.[68]

109. Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod cydberthynas rhwng gwahanol gyllidebau, megis y Grant Cymorth Tai yn arbed arian i wasanaethau eraill y tu allan i dai. Dywedodd fod y gydberthynas honno'n bwysig iawn a'i bod yn siŵr y byddai wedi bod yn ffactor allweddol ym mhenderfyniadau'r Gweinidog Cyllid.[69]

---

[66] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, papur 1
[67] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 8
[68] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 11
[69] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 15

Ein barn ni

110. Rydym yn croesawu blaenoriaeth Ysgrifennydd y Cabinet o ganolbwyntio ar wariant ataliol - mae buddsoddi mewn tai o ansawdd da, yn ei dro, yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymorth eraill ac yn arwain at ganlyniadau gwell. Fodd bynnag, nodwn mai cyfanswm y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer tai ac adfywio yw 4.9 y cant o'r gyllideb ddrafft gyffredinol. Fel i ni nodi mewn adroddiadau blaenorol, mae gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai nid yn unig yn hollbwysig o ran atal a lliniaru digartrefedd, ond mae hefyd yn lleihau pwysau mewn meysydd eraill. Mae'r ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n dangos bod pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau Grant Cymorth Tai yn darparu arbedion net o £1.40 i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn hysbys ac yn cael ei derbyn yn eang, a dyna pam rydym wedi mynd ati'n gyson i nodi'r gronfa fel blaenoriaeth ar gyfer adnoddau ychwanegol.

111. O ystyried pwysigrwydd tai ar gyfer lles pobl a'r angen i fynd i'r afael ag anghenion tai cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, mae'n hanfodol bod gan Ysgrifennydd y Cabinet ddarlun cynhwysfawr o'r sylfaen dystiolaeth ar effaith ataliol gwariant tai, pan fydd hi'n trafod y gyllideb ar lefel y Cabinet.

112. Rydym yn ymwybodol bod yr ymchwil gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd wedi'i chynnal yn 2020, felly mae'n dechrau dyddio. Credwn fod angen dadansoddiad pellach yn awr i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru wybodaeth gyfredol i'w chynorthwyo i bennu ei blaenoriaethau gwario a'i bod yn gallu cyfeirio adnoddau yn unol â'r rheini er mwyn gwireddu buddion gwariant ataliol yn llawn.

113. Rydym yn deall y pwysau a'r gofynion sy'n cystadlu ar y gyllideb ddrafft, ond hoffem weld cynnydd yn y dyraniad tai yn y blynyddoedd i ddod fel arwydd o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wireddu buddion ataliol gwariant ar dai ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill, yn ogystal â diwallu anghenion tai cenedlaethau'r dyfodol.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o fanteision cost buddsoddi mewn tai ac adfywio ar wariant cyhoeddus ehangach. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r dadansoddiad wedi'i ddiweddaru i nodi blaenoriaethau gwario ac i lywio trafodaethau'r Cabinet ar ddyrannu adnoddau i dai ac adfywio.

114. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC) yn ariannu sawl agwedd ar y gyllideb ddrafft, gan gynnwys Cymorth i Brynu - Cymru (£57 miliwn), Benthyciadau Datblygu RSL (£26.250 miliwn) a benthyciadau ôl-osod Cartrefi Gwyrdd (£3 miliwn). Nodwn adroddiad y Pwyllgor Cyllid o fis Tachwedd 2024 a nododd fod FTC wedi cael ei ddefnyddio i gyflawni effeithiau cadarnhaol ym maes tai, gyda phrosiect tai ieuenctid Tai Ffres a'r datblygwr nid-er-elw Tirion Homes yn cael eu nodi fel dwy enghraifft lle'r oedd darpariaeth dai wedi elwa ar gyllid FTC.

Casgliad 3. Credwn fod cyfle i Lywodraeth Cymru wneud mwy o ddefnydd o gyllid Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC) i ddiwallu'r angen am dai. Hoffem hefyd weld dadansoddiad llawn o sut y mae FTC wedi'i ddefnyddio i ariannu prosiectau tai yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Digartrefedd a chymorth tai

Digartrefedd

115. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth newydd ar ddigartrefedd ym mis Hydref 2019. Ymrwymodd i sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026 a oedd yn rhoi argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar waith. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar drosglwyddo system ddigartrefedd Cymru tuag at ailgartrefu cyflym.

116. Ar 10 Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn yn nodi diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig gyda'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd. Roedd y diwygiadau yn seiliedig ar argymhellion gan Banel Adolygu Arbenigol. Mae Alma Economics wrthi'n edrych ar gostau'r cynigion yn y Papur Gwyn. Nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft fel a ganlyn: "rydym yn disgwyl y bydd angen cryn fuddsoddiad er mwyn rhoi'r diwygiadau ar waith." Nodir hefyd y bydd fersiynau o'r Asesiad yn y dyfodol yn rhoi rhagor o fanylion. Disgwylir i Fil gael ei gyflwyno gerbron y Senedd yn 2025.

117. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod 11,363 o bobl mewn llety dros dro ar 30 Medi 2024, cynnydd o 1 y cant ers 30 Medi 2023. Roedd 2,874 o'r rhain yn blant dibynnol o dan 16 oed, gostyngiad o 16 y cant ers 30 Medi 2023.

118. Dyraniad cyllideb ddrafft 2025-26 ar gyfer cymorth ac atal digartrefedd yw £219.9 miliwn, sydd £320,000 yn llai na'r ffigur llinell sylfaen. Mae hyn oherwydd

bod £21.32 miliwn wedi'i drosglwyddo o'r llinell gyllideb hon i'r Grant Cynnal Refeniw, i gefnogi darparu llety dros dro a chymorth dewisol i atal neu leddfu digartrefedd, tra bod £21 miliwn wedi'i ychwanegu at linell y gyllideb i gynyddu'r Grant Cymorth Tai.

119. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod buddsoddiadau Llywodraeth Cymru yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac er bod gormod o bobl mewn llety dros dro o hyd, nad yw'r ffigurau wir yn dangos symudiadau o fewn y system, a bod pobl yn cael eu symud ymlaen i gartrefi parhaol. Er ei bod yn rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau pendant o ran tueddiadau yn nifer y bobl sydd mewn llety dros dro, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod arwyddion cadarnhaol, fel y gostyngiad yn nifer y plant dibynnol mewn llety dros dro.[70]

120. Mae papur tystiolaeth CLILC yn nodi bod gwariant refeniw net awdurdodau lleol ar ddigartrefedd a llety dros dro wedi cynyddu o £10.8m yn 2014-15 i £86.8m yn 2024-25. Mae'r papur yn dweud bod awdurdodau lleol yn gorwario ar gyllidebau digartrefedd, yn fwy na'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru neu y gellir ei adennill gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.[71]

121. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei bod yn gwbl ymwybodol o'r pwysau ar awdurdodau lleol, ond cyfeiriodd at y £21.32 a drosglwyddwyd i'r Grant Cynnal Refeniw i ariannu llety dros dro:

> *"But it is important to recognise the funding we've provided through the grant for temporary accommodation is in addition to funding already in the revenue support grant for local authorities to meet their statutory responsibilities.*
>
> *Within the draft budget, we've transferred £21.32 million from the homelessness support and prevention budget expenditure line to the revenue support grant. That's to make sure of local authority funding of temporary accommodation and reflects funding that supports delivery of statutory duties within the RSG."*[72]

122. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y byddai'n hoffi i Lywodraeth y DU gynyddu'r symiau y gall awdurdodau lleol eu hawlio'n ôl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i wrthbwyso costau rhentu llety dros dro, sydd ar hyn o bryd wedi'u

[70] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 17
[71] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[72] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 20-21

gosod ar lefelau 2011 y Lwfans Tai Lleol, gan y byddai hyn yn helpu awdurdodau lleol:

> *"to assist with the cost of temporary accommodation, we would like to see the UK Government break the current benefit rates for temporary accommodation. They're currently set at the January 2011 levels of local housing allowance. That is very much out of date, and I will certainly continue to call for the UK Government to uprate all LHA rates on an annual basis."*[73]

123. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn digwydd ar sail swyddog i swyddog a'i bod yn codi'r mater ac y bydd yn parhau i wneud hynny pan fydd cyfleoedd yn codi gan y byddai wir yn gwneud gwahaniaeth.[74]

124. Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod hyn yn codi'n rheolaidd mewn gohebiaeth rhwng Gweinidogion a bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi ymrwymo i ysgrifennu ar y cyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a CLILC.[75]

125. Nododd tystiolaeth CLILC fod polisïau Llywodraeth y DU yn arwain at bwysau ychwanegol ar lety dros dro. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys rhyddhau carcharorion yn gynnar oherwydd gorlenwi, ehangu'r ardal y gwasgerir ceiswyr lloches iddi i bob ardal awdurdod lleol a chynyddu pa mor gyflym y caiff ceisiadau am loches eu prosesu. Mae'n dweud nad oes cyllid ychwanegol gan y Swyddfa Gartref na'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i dalu am y costau hyn.[76]

126. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd cyllid ychwanegol i gynorthwyo'r awdurdodau lleol y bernir sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y cynnydd yn nifer y penderfyniadau lloches dros y chwe mis nesaf, gan ychwanegu bod symiau eto i'w cadarnhau. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud:

> *"one of the biggest things that, actually, the UK Government could do to help in this area would be around the LHA rate."*[77]

[73] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 21
[74] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 24
[75] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 25
[76] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[77] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 37-38

Cymorth Tai

127. Y Grant Cymorth Tai yw prif ffrwd ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol. Canfu ymchwil a wnaed gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd fod pob £1 a fuddsoddir yng ngwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn sicrhau arbedion net o £1.40 ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

128. Gwnaethom argymell yn ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2024-25 bod rhaid blaenoriaethu cynnydd yn y Grant Cymorth Tai. O ganlyniad, bu cynnydd o £13 miliwn yn y Grant yng nghyllideb derfynol 2024-25.

129. Mae'r Grant Cymorth Tai wedi cynyddu £21 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2025-26, i £203 miliwn. Mae papur y Gweinidog yn dweud y bydd hyn yn cefnogi'r sector cymorth tai i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff, a meithrin gallu yn y system i ymateb i'r galw cynyddol.[78]

130. Dywedodd Cymorth Cymru fod darparwyr wedi croesawu'n fawr y cynnydd ar gyfer 2024-25, a oedd wedi galluogi rhai i osgoi diswyddiadau. Fodd bynnag, gan na chyhoeddwyd y cynnydd tan y gyllideb derfynol ym mis Chwefror 2024, daeth hyn yn rhy hwyr i rai asiantaethau wyrdroi toriadau bwriedig, a chymerodd rhai awdurdodau lleol hyd at chwe mis i drosglwyddo'r cynnydd. Cyfeiriodd Cymorth Cymru hefyd at arolwg aelodau a ganfu bod gan 81 y cant o wasanaethau ddiffyg ar hyn o bryd er gwaethaf y £13 miliwn ychwanegol. Dywedon nhw:

> *"Most organisations cannot afford to subsidise services in the future and will need to hand back contracts if the funding deficit is not resolved."*[79]

131. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd y Grant Cymorth Tai, gan ddweud ei fod yn gwbl hanfodol:

> *"I'm really pleased that we've been able to find some extra money this year to put into that, which is a £21 million housing support grant uplift. [ ] It is our key homelessness prevention grant, and it does support a range of people to live independently, to sustain tenancies, and that is really crucial."*[80]

[78] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2024, papur 1
[79] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB25-26(6)70: Cymorth Cymru
[80] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 41

132. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir mai bwriad y buddsoddiad yw cefnogi comisiynwyr i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i'r sector, a dywedodd fod hynny'n gwbl hanfodol os ydym am gael gweithlu gwydn.[81] Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn gallu dweud a yw'r £21 miliwn yn ddigon i sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y sector yn gallu cael y cyflog byw gwirioneddol, ond bod cydbwysedd i'w daro o ran yr hyn y gall ei wneud o fewn y portffolio.[82]

133. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Cymorth Cymru, a nifer o sefydliadau eraill, yn canolbwyntio ar yr effaith a ragwelir y bydd y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Hydref y DU yn ei chael ar y trydydd sector. Ym mis Tachwedd 2024, gwnaeth y Canghellor Rachel Reeves ddiystyru esemptio darparwyr trydydd sector o'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru fod gan y cynnydd y potensial i wthio darparwyr cymorth dros y dibyn,[83] a dywedodd y Wallich ei fod wedi rhagweld cost ychwanegol o £440,000 y flwyddyn.[84]

134. Mae Naratif y Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y byddai'n darparu cyllid ychwanegol i lywodraethau datganoledig i "helpu i liniaru" cost y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol i wasanaethau cyhoeddus datganoledig. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn "parhau i gydweithio â Thrysorlys EF", ond nid yw lefel y gefnogaeth wedi'i chadarnhau eto ac nid yw'n rhan o'r Gyllideb ddrafft hon. Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 20 Rhagfyr 2024, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg :

> *"Mae Trysorlys EM wedi cydnabod y bydd y newid i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cynyddu costau i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac y bydd yn "darparu cyllid i'r sector cyhoeddus i'w cefnogi gyda'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn". Rydym yn gweithio gyda Thrysorlys EM i gadarnhau'r manylion a lefel y cymorth a fydd yn cael ei ddarparu."*[85]

135. Bydd y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn dilyn diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o weithwyr gwasanaethau cyhoeddus, felly ni fydd yn talu am gynnydd mewn Yswiriant Gwladol ar gyfer sefydliadau trydydd sector sydd

[81] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 42
[82] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 44
[83] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB25-26(6)60: Cartrefi Cymunedol Cymru
[84] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB25-26(6)52: The Wallich
[85] Y Pwyllgor Cyllid, 8 Ionawr 2025 FIN(6)-01-25 PTN 6

dan gontract i ddarparu gwasanaethau ar ran y sector cyhoeddus. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 12 Rhagfyr 2024, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, er bod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys arian ychwanegol ar gyfer y trydydd sector, ni fwriedir i'r arian hwn dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, ond y bydd angen i sefydliadau trydydd sector sy'n wynebu'r penderfyniadau hynny lunio eu cyllidebau yn unol â hynny.[86]

136. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet bryderon y sector ond dywedodd wrthym:

> *"None of the £21 million is for the increased national insurance contribution. We've been explicit about that. This is something that's not devolved."*

137. Ychwanegodd fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, yn nodi pryderon ynghylch y dyraniad cyllid a ragwelir a'r gost ychwanegol i gyflogwyr gwasanaethau dan gontract sy'n darparu ar ran y sector cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau tai.[87] Yn ogystal, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym am waith gyda phartneriaid ehangach y trydydd sector i asesu'r effaith.[88]

138. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wrth y Pwyllgor Cyllid ar 23 Ionawr 2025:

> *"What I'm not going to be in a position to do is to provide money to organisations in Wales for which the Welsh Government is not being provided with funds. Any money we get to cover the costs of public sector employers we will pass directly to those services. We're simply a pass-through for those purposes. But I can't magic money out of the Welsh Government budget to cover costs that are not being covered elsewhere."*[89]

Ein barn ni

139. Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, gwnaethom nodi ein pryder dwfn bod y Grant Cymorth Tai wedi'i gynnal ar yr un lefel ers y flwyddyn flaenorol a galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r holl opsiynau i ddarparu cyllid ychwanegol. Roeddem yn falch bod cyllid ychwanegol

[86] Y Pwyllgor Cyllid, 12 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 77
[87] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 51
[88] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 56
[89] Y Pwyllgor Cyllid, 23 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 60

ar gyfer y Grant ar gael yn y gyllideb derfynol, ond rydym yn ymwybodol bod y newyddion wedi dod yn rhy hwyr i rai asiantaethau allu gwyrdroi toriadau a gynlluniwyd. Eleni, rydym yn croesawu'r cynnydd o £21 miliwn yn y Grant Cymorth Tai i £203 miliwn a'r hysbysiad cynnar y mae hyn yn ei roi i ddarparwyr. Rydym yn croesawu bwriad Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y cyllid ychwanegol yn cefnogi'r sector cymorth tai i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff, gan ein bod wedi codi hyn fel pryder o'r blaen.

140. Rydym yn ansicr a fydd y cynnydd a ddarperir yn ddigon i dalu'r gost o dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl weithwyr, ond byddwn yn ystyried hyn ymhellach fel rhan o'n gwaith sydd ar ddod ar gymorth tai i bobl agored i niwed.

141. Er gwaethaf croesawu'r cynnydd, rydym yn parhau i boeni am allu'r sector i barhau i ddarparu gwasanaethau presennol. Nodwn y dystiolaeth sy'n peri gofid gan Cymorth, sef bod 81 y cant o wasanaethau'n rhedeg ar ddiffyg ar hyn o bryd er gwaethaf y £13 miliwn ychwanegol eleni. Ein prif bryder ni, a phrif bryder y sector, yw'r pwysau ariannol sylweddol y bydd darparwyr yn eu hwynebu wrth ymdopi ag effaith ddisgwyliedig y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Nodwn fod Wallich wedi amcangyfrif baich ariannol ychwanegol o £440,000 ar eu gwasanaethau eu hunain o ganlyniad, gyda darparwyr eraill hefyd yn amcangyfrif effeithiau ariannol sylweddol.

142. Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet yn glir na fwriedir i'r cyllid ychwanegol gael ei ddefnyddio i dalu am gyfraniadau Yswiriant Gwladol ac nad oedd yn gallu nodi sut y byddai'r sector yn gallu talu'r costau hynny. Rydym yn poeni'n fawr am hyn, yn enwedig am yr ansicrwydd sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd. O ystyried bod canran mor uchel o wasanaethau eisoes yn rhedeg ar ddiffyg, mae'n bosibilrwydd gwirioneddol y bydd angen i ddarparwyr roi'r gorau i rywfaint o'r gwaith hanfodol y maent yn ei wneud i gefnogi pobl agored i niwed.

143. Rydym yn gwerthfawrogi bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod y sefyllfa sy'n wynebu'r sector, ond rydym yn teimlo'n gryf y dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r sector yn ystod y cyfnod heriol hwn. Er gwaethaf y sicrwydd gan Drysorlys EF y bydd cyrff sector cyhoeddus yn derbyn cyllid ychwanegol i'w cefnogi gyda'r cyfraniadau cynyddol, mae'n aneglur a fydd cymorth yn cael ei drosglwyddo i ddarparwyr y Trydydd Sector sy'n darparu ar ran cyrff cyhoeddus ac, os felly, sut y caiff ei drosglwyddo.

Casgliad 4. Rydym yn sylweddoli bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi gofyn am eglurder gan Drysorlys y DU ac, fel yr amlinellwyd yn ein hargymhelliad 7, rydym yn ei annog i rannu canlyniad trafodaethau gyda ni a'r Trydydd Sector

fel mater o frys. Mae'n hanfodol cael rhagor o wybodaeth cyn i'r Senedd ystyried y gyllideb derfynol ar gyfer 2025-26.

144. Mae nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro yn fater arall sydd wedi achosi pryder sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym wedi tynnu sylw ato mewn sawl adroddiad. Rydym yn croesawu'r gostyngiad graddol yn nifer y plant dibynnol sy'n byw mewn llety dros dro, ond mae'r nifer yn rhy uchel o hyd. Mae'n amlwg bod y galw am lety dros dro yn parhau i roi pwysau ar awdurdodau lleol. Nodwn fod £21.32 miliwn yn y gyllideb ddrafft hon wedi cael ei drosglwyddo o'r BEL atal digartrefedd i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer llety dros dro, a bod £21 miliwn wedi'i ychwanegu at y BEL atal digartrefedd ar gyfer y cynnydd yn y Grant Cymorth Tai. Wrth graffu ar gyllideb 2024-25 y llynedd, gwnaethom nodi fod y BEL Grant Cymorth Tai wedi'i huno â'r BEL atal digartrefedd, a rhoddodd ysgrifennydd y Cabinet sicrwydd i ni mai at ddibenion gweinyddol yn unig yr oedd hyn.

Casgliad 5. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod uno'r BEL atal digartrefedd a'r BEL Grant Cymorth Tai mewn un BEL wedi cynorthwyo tryloywder y cyllid hwn. Ar wahân i'r cynnydd yn y Grant Cymorth Tai, mae'n ymddangos bod y setliad ar gyfer atal digartrefedd yn setliad arian gwastad, ac ni ddylai hynny fod yn dderbyniol ar adeg pan fo cyfraddau digartrefedd a chysgu allan yn cynyddu.

145. Rydym yn cydnabod y pryder a godwyd gan CLlLC bod adnoddau awdurdodau lleol o dan bwysau pellach gan bolisïau Llywodraeth y DU, megis rhyddhau carcharorion yn gynnar, ehangu'r ardal y gwasgerir ceiswyr lloches iddi i bob ardal a chynyddu pa mor gyflym y caiff ceisiadau am loches eu prosesu. Rydym yn rhannu eu pryderon bod y polisïau hyn yn cynyddu'r galw am lety dros dro ond nad yw'r Swyddfa Gartref wedi darparu cyllid ychwanegol i dalu'r costau hyn.

146. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet bod disgwyl i'r Swyddfa Gartref ddarparu rhywfaint o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol, ond rydym yn poeni am y diffyg eglurder a ddarperir ar hyn o bryd. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at awdurdodau lleol y bernir a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf, ond ni roddodd unrhyw arwydd o sut y bydd yr effaith yn cael ei hasesu. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i ddarparu manylion ar frys ynghylch sut y caiff cyllid i gefnogi awdurdodau lleol sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau lloches ei asesu.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i fynd ati ar frys i roi manylion sut y bydd cyllid i gefnogi awdurdodau lleol sy'n cael eu

heffeithio gan loches yn cael ei asesu a phryd y gall awdurdodau ddisgwyl derbyn cyllid ychwanegol.

147. Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet y bydd cynyddu'r symiau y gall awdurdodau lleol eu hawlio'n ôl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i wrthbwyso costau rhentu llety dros dro yn helpu awdurdodau lleol yn sylweddol yn eu hangen i ddarparu llety dros dro, ac rydym yn croesawu'r ymdrech a wnaed gan Lywodraeth Cymru hyd yma.

148. Mae'n annerbyniol bod lefelau'r ad-daliad yn parhau i gael eu capio ar lefelau'r Lwfans Tai Lleol ym mis Ionawr 2011 ac mae angen cynnydd sylweddol. Mae'n hanfodol bod pwysau'n parhau i gael ei roi ar Lywodraeth y DU i gynyddu'r ad-daliad am lety dros dro i gyfraddau presennol y Lwfans Tai Lleol. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu nodyn yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU hyd yma a'r camau y bydd yn eu cymryd yn y dyfodol, gan gynnwys manylion y llythyr ar y cyd y mae Ysgrifenyddion y Cabinet a CLILC wedi cyfeirio ato.

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gynyddu'n sylweddol faint o'r Lwfans Tai Lleol y gall awdurdodau lleol ei hawlio am lety dros dro. Gofynnwn am nodyn yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru hyd yma a'r camau y bydd yn eu cymryd yn y dyfodol.

Y cyflenwad tai

Tai newydd fforddiadwy

149. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu. Cafodd yr ystadegau darpariaeth tai fforddiadwy diweddaraf eu cyhoeddi ar 11 Rhagfyr 2024, ac maent yn dangos bod 8,933 o gartrefi wedi'u sicrhau tuag at y targed o 20,000 erbyn mis Mawrth 2024.

150. Daeth adroddiad Archwilio Cymru ar dai fforddiadwy, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, i'r casgliad bod cynnydd tuag at y targed o 20,000 "wedi bod yn araf ac yn ddrutach nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol." Roedd yr adroddiad yn amcangyfrif y gallai fod angen rhwng £580 a £740 miliwn yn ychwanegol at dybiaethau cyllidebol presennol i gyflawni'r holl brosiectau sydd ganddi yn yr arfaeth hyd at fis Mawrth 2026.

151. Argymhellodd ein hadroddiad ar y cyflenwad o dai cymdeithasol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r

dyraniad ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol cyn gynted â phosibl. Gwnaethom argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd ynghylch cyllid amlflwyddyn i landlordiaid cymdeithasol, gan gynnwys mwy o sicrwydd ynghylch polisi rhenti, y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, a sut y caiff datgarboneiddio'r stoc bresennol ei ariannu. Gwnaethom alw hefyd am fwy o hyblygrwydd mewn safonau ar gyfer caffaeliadau, er mwyn caniatáu i fwy o eiddo presennol gael ei brynu a'i gynnwys yn y stoc o gartrefi cymdeithasol parhaol. Gwrthodwyd hyn gan Lywodraeth Cymru.

152. Y Grant Tai Cymdeithasol yw prif grant cyfalaf Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi datblygiad tai cymdeithasol a fforddiadwy gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Cafodd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) ei chyflwyno yn 2022-23 i gefnogi prosiectau sy'n creu tai yn gyflym mewn ffordd hyblyg, gan gynnwys drwy gaffaeliadau, ailfodelu a dulliau adeiladu modern. Gall caffaeliadau fod ar gyfer llety parhaol neu lety dros dro tymor hwy 'yn y cyfamser'. Nid oes gan y TACP ei llinell gyllideb ei hun ond caiff ei chyfuno â'r Grant Tai Cymdeithasol.

153. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynyddu'r Grant Tai Cymdeithasol £81 miliwn yn erbyn y ffigur llinell sylfaen. Mae hefyd yn dyrannu £26.25 miliwn o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC) i gefnogi Benthyciadau Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae papur Ysgrifennydd y Cabinet yn esbonio mai nod y cyllid benthyciad ailgylchadwy hwn yw cefnogi cymdeithasau tai i fynd i'r afael â chynnydd sylweddol mewn tendrau oherwydd costau cynyddol deunyddiau, chwyddiant a llog, a chontractwyr yn ystyried risg uwch yn eu prisiau. Gyda'i gilydd, mae'r dyraniadau hyn yn gyfystyr â chynnydd o 32.5 y cant mewn gwariant cyfalaf ar gyfer y cyflenwad o dai fforddiadwy.

154. Mae'r cyfalaf ychwanegol a'r dyraniad FTC yn dod â'r cyfanswm ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol/TACP i £437.25 miliwn. Mae papur Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud y bydd hyn yn cyfrannu at y targed o 20,000 yn ogystal ag ariannu cartrefi cymdeithasol a fydd yn cael eu cychwyn yn 2025-26 a'u cwblhau yn nhymor nesaf y Senedd.

155. Roedd tystiolaeth Cartrefi Cymunedol Cymru yn croesawu'r buddsoddiad yn y Grant Tai Cymdeithasol a'r TACP yn y gyllideb flaenorol, a gofynnodd am setliadau amlflwyddyn parhaus ar gyfer y ddwy ffrwd ariannu er mwyn cynyddu hyder y sector i barhau i fuddsoddi.[90] Galwodd CLILC am Grant Tai Cymdeithasol ychwanegol, ac am i lefel y gyllideb flaenorol fod yn derfyn isaf ar gyfer y

[90] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB25-26(6)60: Cartrefi Cymunedol Cymru

blynyddoedd i ddod. Galwodd CLlLC hefyd am setliad amlflwyddyn "iach" a fydd yn "rhoi hyder i landlordiaid cymdeithasol, datblygwyr a phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi ac yn rhoi sicrwydd iddynt allu cynllunio, ariannu a darparu nifer cynyddol o gartrefi fforddiadwy."[91]

156. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym nad yw'r TACP yn setliad amlflwyddyn, ond bod y rhaglen ar agor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ychwanegodd swyddog Llywodraeth Cymru fod y TACP yn cael ei rhedeg ar sail gwahodd ceisiadau a phrosiectau ymhell y tu hwnt i'r arian sydd yn y gyllideb er mwyn cael cyflenwad o brosiectau y gellir eu cyflawni.[92]

157. O ran y cyllid ar gyfer tai fforddiadwy newydd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y cyflenwad o dai wedi cynyddu'n sylweddol dros dymor y Senedd hon ac, wrth ddyrannu cyllid, fod rhaid iddi ystyried sicrhau bod cyllidebau'n cyd-fynd â gallu'r sector i wario'r arian hwnnw.[93] Cyfeiriodd at y pwysau i ddarparu cartrefi newydd sy'n golygu ei bod yn costio bron i ddwywaith cymaint mewn cyllid grant i adeiladu cartref nawr o gymharu â'r gost ar ddechrau tymor y Senedd.[94] Dywedodd wrthym:

> *"We do have a strong pipeline there, which I think is really important to deliver more homes this Government term and the next. But we are going to do everything we can within the budgets available, and I'm committed to leveraging as much resource as possible to deliver those much-needed homes across Wales."*[95]

158. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud:

> *"The additional funding is going to be used across both social housing grant, SHG programme and the TACP programme to deliver as many homes as we possibly can towards our 20,000 social homes target. I'm obviously prioritising TACP with that additional funding, just to enable an early announcement to the sector for them to bring forward as many homes as possible to meet the housing need."*[96]

[91] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[92] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 97
[93] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 12
[94] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 65
[95] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 75
[96] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 94

Ein barn ni

159. Rydym eisoes wedi nodi ein pryder ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn diwedd tymor y Senedd hon. Yn dilyn y dystiolaeth ddiweddaraf gan Ysgrifennydd y Cabinet, mae ein pryderon yn parhau. Rydym yn gwerthfawrogi bod nifer y cartrefi newydd yn cael ei wasgaru drwy gydol tymor y Senedd, ond ychydig dros flwyddyn sydd tan y dyddiad targed ac mae'n peri pryder bod y ffigurau diweddaraf yn dangos bod llai na hanner y cartrefi newydd a addawyd wedi'u cwblhau. Gyda chostau adeiladu tai yn parhau i godi ar lefelau sylweddol, mae'n amlwg bod yr hyn a oedd eisoes yn darged heriol yn dod yn fwy anodd ac yn fwyfwy annhebygol o gael ei gyflawni.

160. Mae sylwadau Llywodraeth Cymru am gyflenwad iach o gartrefi newydd yn y system ar ôl 2026 i'w croesawu ac yn galonogol. Gan iddi nodi mai'r TACP yw'r brif flaenoriaeth ar gyfer cyllid yn 2025-26, mae gennym bryderon y gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer y prosiectau adeiladu newydd a ddechreuir yn ystod 2025-26, er mwyn i gartrefi newydd gael eu cwblhau yn nhymor nesaf y Senedd. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau nad yw nifer y prosiectau tai cymdeithasol parhaol sy'n dechrau yn lleihau o ganlyniad i'r flaenoriaeth a roddir i'r TACP, gan y bydd hyn yn lleihau'r ddarpariaeth o dai cymdeithasol a fforddiadwy yn nhymor nesaf y Senedd.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw nifer y prosiectau tai cymdeithasol parhaol sy'n dechrau yn lleihau yn 2025-26 o ganlyniad i'r flaenoriaeth a roddir i'r TACP.

161. Roeddem yn bryderus iawn o glywed bod cost adeiladu cartref newydd wedi dyblu bron ers 2021, sy'n gwneud i ni ofyn a yw Llywodraeth Cymru'n sicrhau'r gwerth gorau am ei gwariant. Nid yw gwerth cartrefi newydd ar y farchnad wedi dyblu yn y cyfnod hwnnw, felly mae hyn wedi ein syfrdanu.

Casgliad 6. Hoffem gael mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'n sicrhau'r gwerth gorau am ei gwariant ar adeiladu tai fforddiadwy newydd a gofyn am ymateb ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet i amlinellu hyn.

162. Dangosodd ein hadroddiad ar y cyflenwad o dai cymdeithasol fod yr 20,000 o gartrefi newydd ymhell o'r nifer sydd eu hangen i ateb y galw ac nad yw adeiladu cartrefi newydd yn rhywbeth sy'n digwydd dros nos. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n archwilio opsiynau eraill i gynyddu faint o dai

cymdeithasol parhaol sydd ar gael. Mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ein hargymhelliad yn galw am fwy o hyblygrwydd mewn safonau ar gyfer caffaeliadau, er mwyn caniatáu i fwy o eiddo presennol gael ei brynu a'i gynnwys yn y stoc o gartrefi cymdeithasol parhaol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal safonau uchel mewn tai cymdeithasol, ond roeddem yn gweld hyn fel ffordd bosibl o gynyddu nifer y cartrefi parhaol.

Casgliad 7. Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod a fyddai cartrefi a ddefnyddir ar hyn o bryd fel llety dros dro yn addas i'w defnyddio'n barhaol. Byddem yn ddiolchgar am ymateb ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi meini prawf a ddefnyddir i bennu ansawdd llety dros dro o gymharu â llety parhaol. Hoffem hefyd wybod y rhaniad rhwng nifer y cartrefi parhaol a dros dro a ariennir gan y TACP.

Y sector rhentu preifat

163. Gwnaethom archwilio Cynllun Lesio Cymru fel rhan o'n hymchwiliad i'r sector rhentu preifat. Mae Cynllun Lesio Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i gymryd lesau hirdymor ar gartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat, i'w gwneud ar gael i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd. Lansiwyd y cynllun ym mis Ionawr 2022 ac mae'n rhedeg am bum mlynedd, hyd at fis Ionawr 2027.

164. Mae £2 miliwn ychwanegol o gyfalaf wedi'i ddyrannu i gefnogi'r cynllun, gan ddod â chyfanswm dyraniad y gyllideb ddrafft i £3.5 miliwn. Mae papur Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud mai'r bwriad yw i'r cynllun hwn gael ei roi ar waith ym mhob awdurdod lleol, gyda phob un â tharged i 1 y cant o'u stoc sector rhentu preifat gael ei lesio drwy'r cynllun erbyn blwyddyn pump. Yn ôl yr amcangyfrifon stoc anheddau diweddaraf, 1 y cant o gyfanswm nifer yr eiddo sector rhentu preifat yng Nghymru yw 2,001. Ym mis Hydref 2024, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod 280 o dai ar brydles drwy'r cynllun ledled Cymru ar 16 Medi 2024. Cadarnhaodd hefyd fod tai sy'n cael eu darparu drwy Gynllun Lesio Cymru yn cyfrannu at y targed o 20,000 ar gyfer cartrefi cymdeithasol i'w rhentu.[97]

165. Nid yw papur Ysgrifennydd y Cabinet yn amlinellu diben arfaethedig y £2 miliwn ychwanegol, ond dywedodd swyddog wrthym ei fod yn adlewyrchiad o sut y mae Llywodraeth Cymru'n gweld y cynllun cyfan yn tyfu, ac i sicrhau bod digon o gyllideb yno i ddiwallu anghenion y grant a'r cymorth i landlordiaid sy'n

[97] Senedd Cymru, WQ94627, 31 Hydref 2024

ymuno â'r cynllun. Ychwanegodd fod tua 360 o gartrefi bellach yn rhan lawn o'r cynllun, a thua 160 yn yr arfaeth, gan ddweud bod hyn yn addawol iawn.[98]

Ein barn ni

166. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar y sector rhentu preifat, rydym yn cefnogi Cynllun Lesio Cymru, ac rydym am ei weld yn llwyddo. Rydym yn croesawu'r £2 miliwn ychwanegol ar gyfer y Cynllun yn y gyllideb ddrafft hon a sicrwydd Llywodraeth Cymru bod yr arian yn adlewyrchiad o sut y disgwylir i'r cynllun dyfu. Rydym yn croesawu'r diweddariad a ddarparwyd ar nifer yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun a bod 19 yn rhan ohono erbyn hyn, sy'n gynnydd o ddau ers i ni adrodd. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog yr awdurdodau sy'n weddill i gymryd rhan ac rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i'n diweddaru ar drafodaethau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd barhau gydag ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymhlith gwerthwyr tai ac asiantau gosod eiddo.

Casgliad 8. Rydym yn croesawu'r £2 miliwn ychwanegol ar gyfer Cynllun Lesio Cymru. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog yr awdurdodau sy'n weddill i gymryd rhan ac rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i'n diweddaru ar drafodaethau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd barhau gydag ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymhlith gwerthwyr tai ac asiantau gosod eiddo.

Tai'r farchnad agored

167. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniad cyfalaf o £82 miliwn i gefnogi tai'r farchnad agored a chynlluniau eraill. Mae hyn yn cynnwys £25 miliwn ar gyfer y Grant Cartrefi Gwag, yn unol â'r llynedd. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2025-26 dangos bod 22,558 o gartrefi gwag yng Nghymru y mae treth gyngor yn daladwy mewn perthynas â nhw. Nid yw'r ffigur hwn wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Y tro diwethaf i nifer y cartrefi gwag ostwng yn sylweddol oedd yn 2022-23, pan oedd y cyfanswm (22,140) 14 y cant yn is na'r flwyddyn flaenorol (25,701).

168. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y ffigur ar gyfer 2024-25 wedi gostwng o 25,701 yn 2021-22, sy'n cynrychioli gostyngiad arall yn yr eiddo hynny dros chwe mis.

[98] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 118

169. Ym mis Rhagfyr 2024, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod 942 o geisiadau dilys wedi dod i law ar gyfer y Grant Cartrefi Gwag a bod 143 o unedau eiddo wedi'u cwblhau ers ei sefydlu yn 2020.[99]

170. Dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r cynllun ar hyn o bryd i nodi rhwystrau i'w roi ar waith. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn siomedig iawn nad yw pob awdurdod lleol yn defnyddio'r cynllun, gan ychwanegu:

> *"We need to make sure that what we do have is actually doing what we want. So it's a bit of understanding why all local authorities aren't actually taking it up at the moment."*[100]

171. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys £57 miliwn pellach mewn Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i ymestyn y cynllun Cymorth i Brynu - Cymru am flwyddyn. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ar 16 Rhagfyr y byddai'r cynllun yn parhau tan fis Medi 2026, ac y byddai Llywodraeth Cymru'n mynd ati yn y cyfamser i weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried y camau nesaf yn sgil gwerthusiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024.

172. Galwodd tystiolaeth gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi am i Cymorth i Brynu - Cymru barhau, gan ddyfynnu ei ymchwil ei hun a ganfu fod y cynllun wedi cefnogi 4,400 o swyddi ac wedi creu £240 miliwn mewn gweithgarwch economaidd bob blwyddyn ar gyfartaledd ers cael ei gyflwyno yn 2014.[101]

173. Daeth y gwerthusiad o gynllun Cymru i'r casgliad bod Cymorth i Brynu - Cymru yn boblogaidd ymhlith prynwyr a'i fod wedi helpu i gefnogi adeiladwyr tai, er nad yw'n mynd i'r afael â'r achosion mwyaf dybryd o angen cyhoeddus. Nododd y gwerthusiad ei bod yn anarferol nad yw Cymorth i Brynu - Cymru wedi'i gyfyngu i brynwyr tro cyntaf, yn wahanol i gynlluniau eraill sy'n cefnogi perchentyaeth ledled y DU. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Cymorth i Brynu—Cymru wedi mynd ati dros 10 mlynedd i gefnogi 11,090 o brynwyr tro cyntaf i brynu cartref, sef 77 y cant o'r pryniannau, gan ychwanegu bod cyfran y prynwyr tro cyntaf wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly mae 84 y cant o'r pryniannau ers mis Ebrill 2022 wedi bod gan brynwyr tro cyntaf.[102]

[99] Senedd Cymru, WQ95131, 5 Rhagfyr 2024
[100] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 125
[101] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB25-26(6) 17: Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
[102] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 129

174. Cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru mai'r terfyn uchaf ar eiddo sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun yw £300,000, gan nodi nad yw'r swm hwn yn mynd mor bell mewn rhai ardaloedd ag eraill.[103].

Ein barn ni

175. Nodwn fod y gyllideb ddrafft hon yn cynnwys £25 miliwn ar gyfer y Grant Cartrefi Gwag, sydd heb ei gynyddu ers y flwyddyn flaenorol. Mae adroddiad ar alldro 2023-24 Llywodraeth Cymru yn dangos tanwariant o 48 y cant yn y BEL sy'n cynnwys y Grant Cartrefi Gwag. Nid yw'n glir faint o'r Grant ar gyfer 2023-24 a danwariwyd. Mae'n siomedig nad oedd nifer yr unedau eiddo sy'n wag am chwe mis neu fwy wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y tair blynedd flaenorol yn 2024, er ein bod yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyfeirio at ostyngiad ers 2021-22. Beth bynnag, mae nifer yr unedau eiddo gwag wedi aros yr un fath yn ddiweddar, ac rydym yn poeni am y cynnydd araf sy'n cael ei wneud.

176. Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud ym mis Rhagfyr 2024 fod 942 o geisiadau dilys wedi dod i law ar gyfer y Grant Cartrefi Gwag a bod 143 o unedau eiddo wedi'u cwblhau ers ei sefydlu yn 2020. Mae'r ffigurau hyn yn ymddangos yn isel iawn o ystyried cyfanswm yr eiddo gwag ledled Cymru. Rydym yn cydnabod siom Ysgrifennydd y Cabinet nad yw pob awdurdod lleol yn ymwneud â'r Grant a'i hymrwymiad i adolygu ei effeithiolrwydd.

Casgliad 9. Mae eiddo gwag yn effeithio ar gymunedau ledled Cymru ac yn adnodd sy'n cael ei wastraffu, felly mae'n bwysig bod pob awdurdod lleol yn defnyddio pob offeryn posibl i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rydym yn croesawu adolygiad Ysgrifennydd y Cabinet o'r Grant Cartrefi Gwag ac yn annog Llywodraeth Cymru i ymgymryd â'r gwaith hwn yn gyflym i sicrhau bod y Grant mor effeithiol â phosibl.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion am faint o'r Grant Cartrefi Gwag a wariwyd yn 2023-24 a'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2024-25.

177. Rydym yn deall y gall cymryd camau gorfodi fod yn gymhleth ac yn cydnabod o waith blaenorol a wnaed ar eiddo gwag y gall cyfreithwyr awdurdodau lleol fod yn ansicr weithiau ynghylch defnyddio'r pwerau prynu gorfodol sydd ar gael iddynt. Cyfeiriodd ein hadroddiad ar y sector rhentu preifat at yr argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn 2019 y dylai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol archwilio a nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o sefydlu ffynhonnell ranbarthol neu

[103] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 133

genedlaethol o arbenigedd cyfreithiol i dimau tai ei defnyddio. Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod arbenigwr yn y diwydiant dan gontract tan 31 Mawrth 2025 i gynnig hyfforddiant a chyngor i awdurdodau lleol.

Casgliad 10. Gan ei bod yn ymddangos nad oes cynnydd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i leihau nifer yr eiddo gwag ledled Cymru, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu a fydd yr arbenigedd cyfreithiol sydd ar gael ar hyn o bryd i awdurdodau lleol ar ddefnyddio pwerau gorfodi priodol yn cael ei ymestyn y tu hwnt i 31 Mawrth 2025 ac, os na, pa gymorth arall a ddarperir.

178. Rydym yn cefnogi nodau'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru ac yn cydnabod ei fod wedi helpu llawer o bobl i brynu eu cartref cyntaf. Fodd bynnag, syndod oedd clywed bod uchafswm gwerth yr eiddo a brynir drwy'r Cynllun mor uchel â £300,000. Rydym yn gwerthfawrogi bod prisiau tai yn amrywio ledled Cymru, ond credwn fod y ffigur hwn yn ymddangos yn uchel. Rydym yn pryderu ynghylch ai prynwyr sy'n gallu fforddio eiddo tuag at y trothwy uchaf yw'r rhai sydd fwyaf angen cymorth ariannol i brynu cartref, yn enwedig yng ngoleuni canfyddiadau'r gwerthusiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y cynllun yn Lloegr wedi dod i ben yn dilyn ymchwiliad a gododd ansicrwydd o'i werth. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r gwerthusiad ac rydym yn croesawu hyn.

Casgliad 11. Rydym yn pryderu bod y trothwy a osodwyd ar gyfer eiddo a brynir drwy'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru, sef £300,000, yn rhy uchel a bod y cynllun yn agored i bobl sydd eisoes yn berchen ar gartref. Dylai gwaith Llywodraeth Cymru gyda rhanddeiliaid ystyried a ddylai'r trothwy fod yn is er mwyn helpu'r rhai sydd fwyaf angen cymorth ariannol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried a ddylid cyfyngu'r cynllun i brynwyr tro cyntaf, ac a ddylai'r cynllun barhau o gwbl.

Diogelwch adeiladau

179. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i ddiwygio'r system diogelwch adeiladau bresennol, gan gynnwys ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi.

180. Mae gan ddiogelwch adeiladau ddyraniad refeniw o £4.5 miliwn a dyraniad cyfalaf o £127.67 miliwn yn 2025-26, sydd heb newid ers y gyllideb llinell sylfaen.

Gwaith adfer

181. Darperir cyllid drwy Raglen Adfer Diogelwch Adeiladau Cymru i nodi a mynd i'r afael â materion diogelwch tân mewn adeiladau canolig ac uchel iawn. Ym mis Rhagfyr 2024, roedd 44 y cant o adeiladau yn y rhaglen adfer naill ai wedi'u cwblhau, â gwaith yn mynd rhagddo arnynt neu nad oedd angen gwaith diogelwch tân arnynt. Mae nifer yr adeiladau yn y rhaglen wedi codi o 350 ym mis Mehefin 2024 i 433 ym mis Rhagfyr 2024.

182. Ym mis Hydref 2024, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor yr amcangyfrifir y bydd y gwaith yn parhau dros y pum mlynedd nesaf a'i bod yn disgwyl cynnydd mewn gwariant dros y cyfnod hwnnw. Mewn ymateb i bryderon ynghylch cyflymder y gwaith, dywedodd wrthym nad oes unrhyw oedi oherwydd cyfyngiadau cyllidebol.[104] Mae papur y gyllideb yn nodi:

> *"Rydym yn parhau i fonitro cynnydd a phwyso am gyflymder gan bawb dan sylw a byddwn yn teilwra ein cyllideb i gyd-fynd â'r rhaglen waith."*

183. Dywedwyd wrthym fod 433 o adeiladau yn y rhaglen adfer a bod y broses mynegi diddordeb yn dal i fod ar agor, felly disgwylir i fwy ymuno â'r rhaglen. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i ddeall y gwariant fydd ei angen bob blwyddyn, gan ychwanegu y byddai'n hoffi gweld gwaith adfer yn mynd rhagddo cyn gynted â phosibl. Pwysleisiodd unwaith eto nad yw materion cyllidebol wedi cael unrhyw effaith negyddol ar gyflawni ond bod llawer o ffactorau allanol, a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i gefnogi gwaith adfer a'i symud yn ei flaen ar gyflymder diamwys.[105]

Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)

184. Bydd Bil Diogelwch Adeiladu (Cymru) yn cael ei gyflwyno yn ystod 2025. Bydd y Bil yn sefydlu cyfundrefn newydd yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y cyfnod meddiannu a bydd yn ymdrin â rheoleiddio risgiau diogelwch adeiladau mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth.

185. Mae Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi mynegi pryder ynghylch a oes gan y sector diogelwch adeiladau yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni diwygiadau i ddiogelwch

[104] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 10 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 63
[105] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 144-145

adeiladau a lleihau risgiau gweithredu. Mae papur tystiolaeth CLlLC yn nodi bod diwygio'r drefn diogelwch adeiladau, a'r angen i lenwi bylchau yn y gweithlu, yn cyfrannu at bwysau ariannol ym maes tai.[106]

186. Yn ei phapur, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall y goblygiadau o ran adnoddau a'r gweithlu, ac yn archwilio beth y gellir ei wneud yn genedlaethol i gefnogi gweithredu. Mae'r papur hwn yn nodi y bydd y gwaith hwn yn parhau i ddechrau 2025 ac y bydd yn "sail ar gyfer cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol".

187. Dywedwyd wrthym fod dadansoddiad economaidd annibynnol wedi'i gomisiynu gan Adroit Economics i ddatblygu dealltwriaeth o gostau a manteision y diwygiadau bwriedig ac y bydd hyn yn cyfrannu at yr asesiad effaith rheoleiddiol.[107]

Ein barn ni

188. Fel y nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol, mae cyflymder gwneud gwaith adfer ar adeiladau preswyl uchel iawn wedi bod yn destun pryder sylweddol ers amser i bobl sy'n byw yn yr adeiladau dan sylw a hefyd i lesddeiliaid sy'n landlordiaid. Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch eisiau gweld gwaith adfer yn cael ei wneud yn gyflym, ond rydym yn parhau i glywed gan randdeiliaid sy'n dal i fod yn rhwystredig ynghylch cyflymder y cynnydd.

189. Nodwn fod dyraniad y gyllideb ar gyfer diogelwch adeiladau wedi aros ar yr un lefel â chyllideb derfynol 2024-25 a sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet nad yw cyllidebau wedi cael effaith negyddol ar gyflawni gwaith adfer.

190. Nodwn hefyd fod tanwariant o 90 y cant yn y BEL gyfalaf ar gyfer diogelwch adeiladau yn 2023-24, gyda £8.697 miliwn wedi'i wario allan o gyllideb o £90 miliwn. Roedd yna hefyd danwariant o 27 y cant yn y gyllideb refeniw diogelwch adeiladau, gydag £1.09 miliwn heb ei wario ar ddiwedd 2023-24.

Casgliad 12. Byddwn yn parhau i godi'r angen dybryd i gyflymder y gwaith adfer ar adeiladau preswyl uchel iawn gynyddu. Gofynnwn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio'r rhesymau dros y tanwariant cyfalaf a refeniw yn 2023-24 a pha gyfran o'r cyllidebau cyfalaf a refeniw y mae'n disgwyl iddynt gael eu gwario yn 2024-25.

[106] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 8 Ionawr 2025, papur 1
[107] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 140

Gofynnwn hefyd am esboniad ynghylch a gafodd tanwariant 2023-24 ei ailbroffilio ac, os felly, sut.

191. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Bil yn ymwneud â diogelwch adeiladau yn ddiweddarach eleni. Rydym yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan Archwilio Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a CLlLC, ac yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu dadansoddiad economaidd annibynnol i gyfrannu at yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwnnw.

Safonau tai

Datgarboneiddio a safonau tai

192. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n ymrwymo i ddatgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi, hyfforddiant ac arloesedd o ansawdd gan ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Mae buddsoddi mewn cynnal a chadw, gwella a datgarboneiddio cartrefi wedi'i gynnal i raddau helaeth ar lefelau'r llinell sylfaen, er bod £3 miliwn ychwanegol o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol wedi'i ddyrannu i barhau i ariannu benthyciadau ôl-osod drwy Gynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru.

193. Fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC 2023), bydd disgwyl i bob cartref cymdeithasol fodloni safon EPC C erbyn mis Mawrth 2030, a chyflawni EPC A yn y tymor hwy. Rhaid bodloni gweddill elfennau SATC erbyn 2034.

194. Yn eu hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, disgrifiodd Cartrefi Cymunedol Cymru gynlluniau Llywodraeth Cymru i wyrddio'r sector tai cymdeithasol fel rhai uchelgeisiol, ond heb eu hariannu hyd yma, gan nodi bod y gost o ôl-osod cartref i EPC A yn sylweddol. Ychwanegon nhw:

> *"Detailed work by the Welsh Government ongoing to understand the current cost of decarbonisation. 2021 research showed that to achieve EPC A will cost at least £30k per property, however this research was conducted before the cost of living crisis and significant inflationary pressures and so the true cost is likely to be far higher. The £18m that Welsh Government provided for all 34 housing associations and 12 stock retaining local authorities during 2024-25, even if*

> *replicated, will not be sufficient to support net zero requirements in housing."*[108]

195. Mae papur Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gefnogi datgarboneiddio yn y sector tai cymdeithasol, drwy ddarparu'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Disgwylir i gam 3 y Rhaglen honno redeg am y cyfnod 2022-2025. Esboniodd swyddog y bydd £72 miliwn yn mynd i mewn i'r Rhaglen a'i bod yn symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf ar sail debyg i'r flwyddyn hon.[109]

196. Ar gyfer y sector tai preifat, darparwyd £3 miliwn ychwanegol mewn dyraniadau cyfalaf i ariannu darparu benthyciadau ôl-osod ar gyfer perchen-feddianwyr drwy Gynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru, a lansiwyd ym mis Hydref 2024. Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ymchwiliad byr ar ddatgarboneiddio'r sector tai preifat yn 2023, a ganfu fod y sector yn cael ei adael ar ôl ar y daith ddatgarboneiddio. Ym mis Hydref 2024, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig y bydd map llwybr a chynllun gweithredu ar gyfer datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi'n fuan.[110]

197. Dywedwyd wrthym fod £18 miliwn wedi'i ddyrannu i gefnogi landlordiaid cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau stoc mewn perthynas â safon ansawdd tai Cymru.[111]

Ein barn ni

198. Rydym yn pryderu nad yw'r gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer datgarboneiddio tai cymdeithasol yn ddigonol. Yn ein hymchwiliad diweddar ar y cyflenwad o dai cymdeithasol, gwnaethom dynnu sylw at sut mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch sut y caiff datgarboneiddio ei ariannu yn amharu ar y cyflenwad o dai cymdeithasol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein galwad am fwy o sicrwydd o ran cyllid mewn egwyddor, ond nid yw'r gyllideb hon yn darparu unrhyw sicrwydd y bydd landlordiaid cymdeithasol yn cael eu cefnogi'n ariannol i gyflawni sero net.

199. Rydym yn poeni, er bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi tynnu sylw at broblemau gyda'r daith datgarboneiddio yn 2023, nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi map llwybr a chynllun gweithredu ar

[108] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB25-26(6)60: Cartrefi Cymunedol Cymru
[109] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 151
[110] Cyfarfod Llawn, 22 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion paragraff 224
[111] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 151

gyfer Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd hwn yn cael ei gyhoeddi.

Casgliad 13. Ni chredwn y bydd Llywodraeth Cymru'n gallu cyflawni ei hamcanion sero net ar ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru o ystyried nad yw wedi cyhoeddi map llwybr a chynllun gweithredu eto. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd hwn yn cael ei gyhoeddi.

200. Nodwn fod £18 miliwn wedi'i ddyrannu i gefnogi landlordiaid i gynnal asesiadau stoc mewn perthynas â SATC. Teimlwn fod hyn yn ymddangos yn hael a byddem yn ddiolchgar am fanylion pellach ar sut mae landlordiaid yn gymwys i gael y cymorth a sut y disgwylir iddynt ddefnyddio'r arian.

Y Rhaglen Cartrefi Clyd

201. Mae cyllid cyfalaf ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi cynyddu 7 y cant o'r gyllideb llinell sylfaen, o £35 miliwn i £37.5 miliwn. Dywedwyd wrthym ei bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn benodol, ond gyda phwyslais ar sero net a bod yn wyrdd hefyd.[112]

202. Lansiodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd ar 1 Ebrill 2024. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad dilynol i dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Dywedodd Sefydliad Bevan wrth y Pwyllgor nad yw swm yr arian sy'n cael ei fuddsoddi yn y Rhaglen Cartrefi Clyd yn ddigon i drechu tlodi tanwydd.[113]

Ein barn ni

203. Nodwn y cynnydd bychan o £2.5 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd, ond rydym yn pryderu, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, efallai na fydd hyn yn ddigon i drechu tlodi tanwydd ledled Cymru.

Casgliad 14. Rydym wedi gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu manylion ysgrifenedig am gyllid ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd, gan gynnwys arian sydd ar gael o'r cyllid tlodi tanwydd.

[112] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 161
[113] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, FP13 Sefydliad Bevan

Addasiadau a chyflwr gwael peryglus

204. Mae'r Rhaglen Addasiadau Brys yn cefnogi addasiadau ar draws pob deiliadaeth, drwy'r cynllun Hwyluso, y Grant Addasiadau Ffisegol, a thrwy asiantaethau Gofal a Thrwsio. Nid yw'n cynnwys y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, a ariennir o adnoddau cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau lleol eu hunain.

205. Mae'r Rhaglen Addasiadau Brys yn derbyn dyraniad cyfalaf o £25 miliwn, cynnydd o £5.5 miliwn, a dyraniad refeniw o £5.5 miliwn yn 2025-26, cynnydd o £1.26 miliwn o gymharu â'r gyllideb llinell sylfaen.

206. Cynyddwyd y cyllid ar gyfer 2025-26 i gydnabod y cynnydd yn nifer yr addasiadau sydd eu hangen, costau cyflawni cynyddol, a nifer uwch o achosion cymhleth. Mae Gofal a Thrwsio Cymru wedi adrodd cynnydd o 21 y cant yn y galw a chynnydd o 65 y cant yn y gost fesul uned ar gyfer ei wasanaethau Addasiadau Brys yn 2023-24, o gymharu â 2020-21.[114] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn ei phapur y gallai buddsoddiad pellach o bosibl helpu i ehangu cylch gorchwyl y Rhaglen Addasiadau Brys.

207. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym mai bwriad y cynnydd yw helpu i ddarparu mwy o addasiadau ledled Cymru ac ariannu cynnydd mewn addasiadau sy'n arbennig o gymhleth.[115]

Ein barn ni

208. Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi tynnu sylw at fuddsoddiad yn y rhaglen byw'n annibynnol fel ffocws allweddol y gyllideb ddrafft, ynghyd â'r buddsoddiad sydd ei angen mewn addasu eiddo i gefnogi hyn. Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet a'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Brys, sy'n gam cadarnhaol o ran cefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy yn ein barn ni.

[114] Y Pwyllgor Cyllid, WGDB25-26(6) 30: Gofal a Thrwsio Cymru
[115] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 179